Ombwdsmon Ombudsman
Cymru • Wales

Ugain Mlynedd
Twenty Years

# Cau pennod, edrych i'r dyfodol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026



**Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.**

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

# Cau pennod,

# edrych i'r dyfodol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2025-26

yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Wedi'i osod gerbron Senedd Cymru o dan baragraffau 15, 17 a 18 o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

# Cynnwys


Rhagair 7

Amdanom ni 9

Negeseuon allweddol 10

Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder 12

Cyflwyniad 13

Ein cwynion am wasanaethau cyhoeddus 17

Ein cwynion am y Cod Ymddygiad 26

Ansawdd ein penderfyniadau 35

Ansawdd ein gwasanaeth 37

Adroddiad Datgelu Chwythu'r Chwiban 45

Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant 47

Ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth 48

Mynediad 49

Amrywiaeth a chynhwysiant 51

Sefydliadau sy'n cefnogi ein achwynwyr 52

Y Gymraeg 53

**Nod Strategol 3: Cynyddu effaith gwaith gwella rhagweithiol** 54

Safonau Cwynion 55

Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun 58

Rhannu ein canfyddiadau a'n mewnwelediadau 61

**Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol** 69

Ein pobl 70

Cynaliadwyedd 76

Rheolaeth Ariannol 77

**Adroddiad Atebolrwydd 2025/26** 84

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 85

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 88

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 90

Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth 107

Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Senedd Cymru 114

Gofynion Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net 115

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd 116

| | |
|---|---|
| **Cyfrifon Blynyddol 2025/26** | **124** |
| Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 125 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 126 |
| Datganiad Llif Arian | 128 |
| Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr | 129 |
| Datgeliadau Pensiynau | 147 |
| **Atodiadau** | **152** |
| Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol | 153 |
| Rhai termau a ddefnyddiwn yn y adroddiad hwn | 154 |
| Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 156 |
| Ein cwynion | 160 |

# Rhagair

## Mae'n bleser gen i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn, sy'n cwmpasu blwyddyn olaf ein Cynllun Strategol 2023-26 'Pennod Newydd'.

Wrth i ni ddod â blwyddyn ariannol 2025-26 i ben, rydym yn nodi carreg filltir arbennig yn hanes y swyddfa. Mae bellach yn 20 mlynedd ers i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyntaf ymgymryd â'r swydd.  Mae'n gyfle gwych i asesu'r effaith rydym wedi'i chael ar bobl Cymru dros y ddau ddegawd diwethaf ac i werthfawrogi sut mae ein pwerau wedi newid nid yn unig i sicrhau cyfiawnder i unigolion ond hefyd i gefnogi gwelliant systemig mewn gwasanaethau.

Un o'r prif gyferbyniadau â dyddiau cynnar y swyddfa yw maint y gwaith achos.  Yn 2025-26, rydym yn cau'r flwyddyn brysuraf erioed.  Cawsom 4,507 o gwynion newydd ar draws ein cylch gwaith gwasanaethau cyhoeddus a Chod Ymddygiad.  Mae hyn 27% yn fwy na'r llynedd a thair gwaith yn fwy nag 20 mlynedd yn ôl.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, rwy'n falch o adrodd ar lawer o lwyddiannau eleni. Gwnaethom gau'r nifer uchaf erioed o gwynion, gan gyflawni canlyniadau cadarnhaol i fwy o bobl, gan weithio ar yr un pryd i wella ein hamseroldeb. Rydym yn parhau i dderbyn sicrwydd uchel ar ein proses Cod Ymddygiad. Mae ymwybyddiaeth o'n swyddfa ar ei huchaf erioed, ac rydym wedi gweld cynrychiolaeth well o rai grwpiau ymhlith ein hachwynwyr.  Rydym wedi gwneud cynnydd gyda dod â mwy o sefydliadau o dan ein Safonau Cwynion ac yn defnyddio ein pwerau ar ei liwt ei hun mewn ymchwiliadau pellach.  Daeth yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'n deddfwriaeth a'n gwaith, a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd, i'r casgliad bod ein Deddf yn darparu templed arfer da ar gyfer rôl ombwdsmon yn rhyngwladol ac yn parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol effeithiol sy'n addas at y diben.  Roeddem yn falch o weld bod

88% o'n staff wedi dweud bod OGCC yn lle gwych i weithio. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

Fodd bynnag, mae heriau'n parhau.  Y prif un ohonynt yw'r cynnydd sydyn yn nifer y cwynion newydd sy'n cyrraedd ein swyddfa.  Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn cyfrif am 85% o'n gwaith achos newydd, ac mae nifer y cwynion am y darparwyr gwasanaethau hyn wedi cynyddu ers y llynedd o 42%, 27% a 25% yn y drefn honno.  Er gwaethaf y cynnydd hwn, rydym yn parhau i weld mai anaml y mae rhai grwpiau'n cwyno wrthym.  Yn ogystal, er bod ein gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog, ychydig iawn o bobl sy'n rhyngweithio â ni yn y Gymraeg.  Wrth edrych y tu hwnt i'n swyddfa, mae llawer o bobl yn dal i'w chael hi'n anodd cwyno wrth ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac mae meysydd o wasanaethau cyhoeddus o hyd yng Nghymru lle mae mynediad at gyfiawnder yn anghyflawn.

Eto i gyd, wrth i ni nodi 20fed pen-blwydd y swyddfa, mae ein golygon wedi'u gosod yn gadarn ar y dyfodol. Ym mis Ebrill 2026, roeddem yn falch iawn o gyhoeddi ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2026-29.  Mae'r Cynllun yn ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu gyda ffocws o'r newydd ar effaith, hygyrchedd a gwelliant, gan nodi ein huchelgais glir: darparu gwasanaeth cryfach, gyda gwell effaith i bobl Cymru.  Edrychaf ymlaen at y gwaith sydd o'n blaenau.



## Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gorffennaf 2026

# Amdanom ni

## Mae gennym dair rôl yn bennaf.

**Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.**

Gallwn edrych ar y gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru megis cynghorau lleol, byrddau iechyd, landlordiaid cymdeithasol ac eraill. Gallwn hefyd edrych ar gwynion am ofal cymdeithasol preifat a gofal diwedd oes, yn ogystal â rhywfaint o ofal iechyd preifat.

**Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.**

Rydym yn edrych ar gwynion am gynghorwyr mewn cynghorau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Rydym hefyd yn edrych ar gwynion am baneli dros faterion plismon a throseddu. Rydym hefyd yn "berson rhagnodedig" o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ar gyfer codi pryderon chwythu'r chwiban ynghylch achosion o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau awdurdodau lleol.

**Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.**

Gallwn ymchwilio ar ein liwt ein hunain, hyd yn oed os nad ydym wedi derbyn cwyn. Gallwn hefyd osod safonau cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, monitro sut y maent yn ymdrin â chwynion a darparu hyfforddiant iddynt.

# Negeseuon allweddol

Derbyniom **27%** yn fwy o gwynion.

+27%

Gwnaethom gau **29%** yn fwy o gwynion.

+29%

Gwnaethom ymyrryd mewn **14%** o'r cwynion a gaewyd gennym, gyda mwy nag erioed yn cael eu datrys yn gynnar.

Gwelsom gynnydd mewn cwynion am:

- byrddau iechyd **+42%**
- awdurdodau lleol **+27%**
- cymdeithasau tai **+25%**

69%

Cydymffurfiwyd â **69%** o'r argymhellion a oedd yn ddyledus eleni o fewn y dyddiad targed y cytunwyd arno.

Gwnaethom gyfeirio **15** o gwynion at Bwyllgorau Safonau'r awdurdodau lleol perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru.

15

Gwnaethom gadarnhau ond **5%** o geisiadau am adolygiad.

Yn ystod y flwyddyn, cadarnhaodd y cyrff hyn **81%** o'r toriadau awgrymedig a gyfeiriwyd gennym.

Arweiniodd **86%** o'r achosion a wiriom eleni o dan Ansawdd Gwasanaeth at ychydig iawn o adborth neu ddim adborth o gwbl.


Dywedodd **36%** o'r ymatebwyr a holwyd eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant gennym...

... ond cynyddodd hyn i **87%** ymhlith y bobl a oedd yn fodlon â chanlyniad eu cwyn.

Derbyniom **236** o gwynion llafar.

Derbyniodd **806** o bobl ein hyfforddiant ar ymdrin â chwynion yn dda.

Roedd **52%** o bobl Cymru yn gwybod amdanom, ac roedd **79%** yn cytuno bod ganddynt hyder yn ein swyddfa.




Daeth y Pwyllgor Cyllid i'r casgliad fod ein Deddf 2019 yn darparu "**sail statudol effeithiol**" sy'n cefnogi ac yn galluogi ein gwaith.

Cyhoeddom **9** adroddiad budd y cyhoedd.

Cyhoeddom **adroddiad dilynol** ar ein hymchwiliad ar ei liwt ei hun ar asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru.

Hyd yn hyn, gwnaethom gau **20** ymchwiliad ar ei liwt ei hun.

**Nid oedd** gennym ganolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Ar gyfartaledd, dim ond **1.96** diwrnod a gollwyd fesul gweithiwr oherwydd salwch.

Dywedodd **88%** o'n staff bod OGCC yn lle da i weithio.

Mae sgiliau Cymraeg ein staff wedi gwella.

Cyflawnom ostyngiad o **4%** yn ein cyfanswm allyriadau $CO_2$.

# Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder

# Cyflwyniad

## Eleni, gwnaethom dderbyn a chau’r nifer uchaf a gofnodwyd erioed o gwynion a wnaed yn briodol*.


* Gallwch ddod o hyd i ddiffiniad o beth sy'n cyfrif fel cwyn a wnaed yn briodol yn yr Atodiad.

## Achosion newydd


Yn ystod 2025-26, cawsom 10,584 o achosion newydd ar y cyfan. Roedd hyn 8% yn fwy na'r llynedd ac mae'n cynrychioli cynnydd o 26% dros y 3 blynedd diwethaf, yn ystod oes ein Cynllun Strategol 2023-26.

O'r achosion newydd a gafwyd, roedd 6,077 yn ymholiadau ac yn gyn-asesiadau Cod Ymddygiad.  Dyma achosion na allwn ymchwilio iddynt oherwydd nad yw'r mater, neu'r sefydliad y cwynwyd amdano, yn un y gallwn ymchwilio iddo, neu oherwydd nad oes gennym, er gwaethaf gofyn, ddigon o wybodaeth am y pryder neu oherwydd bod yr achwynydd wedi cysylltu â ni'n rhy hwyr neu cyn cwyno i'r sefydliad.

Fodd bynnag, roedd 4,507 o'r achosion newydd yn gwynion a wnaed yn briodol.  Roedd hyn 27% yn fwy na'r llynedd, 47% yn fwy na tair blynedd yn ôl a'r nifer uchaf o gwynion a gawsom erioed mewn un flwyddyn.



Ffigur 1: Achosion newydd (ymholiadau, cyn-asesiadau a chwynion) a gafwyd, 2019-20 i 2025-26




Wrth i ni nodi 20fed pen-blwydd y swyddfa, rydym yn nodi ein bod bellach yn derbyn tair gwaith cymaint o gwynion ag 20 mlynedd yn ôl.

Ffigur 2 : Niferoedd cwynion newydd (gwasanaethau cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad)



## Achosion caeëdig

Yn gyfan gwbl, fe wnaethom gau 10,572 o achosion – 9% yn fwy na'r llynedd, a 25% yn fwy na 3 mlynedd yn ôl.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymholiadau y byddem fel arfer yn eu cau ar ôl gwiriad cychwynnol, oherwydd na allwn ymchwilio i'r sefydliad neu'r mater y cwynwyd amdano neu nad oes gennym ddigon o wybodaeth i fwrw ymlaen. Pan fyddwn yn cau ymholiad, rydym yn aml yn cynnig cyngor neu'n cyfeirio achwynwyr at sefydliad arall i gael cymorth.

Fodd bynnag, gwnaethom hefyd gau nifer record o 4,496 o gwynion a wnaed yn briodol ynghylch gwasanaethau cyhoeddus neu'r Cod Ymddygiad – 29% yn fwy na'r llynedd a 43% yn fwy na 3 mlynedd yn ôl.

Gorffennom y flwyddyn gyda 567 o achosion a fydd yn cael eu parhau i'r flwyddyn wedyn. Mae hyn tua'r un fath â'r llynedd (562) ac yn adlewyrchu ymdrech anhygoel gan ein staff i ystyried cwynion mor effeithlon â phosibl er gwaethaf y nifer cynyddol o achosion newydd a gafwyd.

+29%

**4,496** o gwynion caeëdig ar y cyfan

+31%


**4,145** o gwynion gwasanaeth cyhoeddus caeëdig

+10%

**351** o gwynion Cod Ymddygiad caeëdig


**567** o achosion a fydd yn cael eu parhau i'r flwyddyn wedyn

Ffigur 3: Achosion caeëdig (ymholiadau, cyn-asesiadau a chwynion), 2019-20 i 2025-26




O ran nifer yr achosion, mae llawer o'n gwaith yn cynnwys ymdrin ag ymholiadau. Fodd bynnag, drwy ymdrin â chwynion yr ydym yn sicrhau cyfiawnder i unigolion, yn ogystal â chefnogi gwelliannau systemig ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gweddill yr adran hon o'n Hadroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar ein **tueddiadau cwynion yn unig.**

Ffigur 4: Niferoedd cwynion caeëdig (gwasanaethau cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad)



# Ein cwynion am wasanaethau cyhoeddus

## Cwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus


**Bob blwyddyn, rydym yn adrodd ar gynnydd yn nifer y cwynion. Nid oedd eleni yn eithriad; fodd bynnag, nid ydym erioed wedi gweld cynnydd mor sydyn. Am y tro cyntaf, rydym wedi cael mwy na 4,000 o gwynion am wasanaethau cyhoeddus, cynnydd o 29% o'i gymharu â'r llynedd, a chynnydd o 50% o'i gymharu â 3 blynedd yn ôl.**

### Pynciau cwynion newydd

Unwaith eto, iechyd yw pwnc mwyaf cyffredin ein cwynion newydd, ar y cyfan. Mae'r cwynion hyn yn cyfrif am 36% o'n llwyth gwaith newydd, fymryn yn uwch na'r llynedd (34%). Mae nifer y cwynion am driniaeth glinigol yn yr ysbyty ac am wasanaethau meddyg teulu wedi cynyddu eto. Mae'r ddau bwnc hyn bellach yn cyfrif am 60% o'n holl gwynion sy'n ymwneud ag iechyd (o'i gymharu â 61% y llynedd).

Mae cyfran y cwynion am ymdrin â chwynion wedi aros yr un fath o'r llynedd (12%). Er ein bod yn croesawu'r ffaith nad oes cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion hyn, rydym yn gobeithio am ostyngiad pellach wrth i ni ehangu ein gwaith a'n hyfforddiant ar safonau cwynion i ragor o sefydliadau (gweler yr adran 'Safonau Cwynion' yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).

Mae cyfran y cwynion am dai cymdeithasol wedi gostwng ychydig, i 18%, o 19% y llynedd. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r cwynion hyn wedi cyfrif yn gyson am tua 18% o'n llwyth gwaith newydd. Hyderwn fod hyn yn adlewyrchu effaith ein gwaith safonau cwynion a gwell arferion cofnodi o fewn y sector.



## Byrddau iechyd


Yn 2025-26, cawsom 1,351 o gwynion am fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae hwn yn gynnydd sylweddol iawn o 42% ers y llynedd a 46% o'i gymharu â 3 mlynedd yn ôl.

O bell ffordd, y maes mwyaf cyffredin o'r cwynion hyn yw triniaeth glinigol yn yr ysbyty, ac rydym wedi gweld cyfran y cwynion hyn yn cynyddu rhwng 2023-24 a 2025-26.

Yn ogystal, roedd tua 14% o gwynion am fyrddau iechyd yn ymwneud ag ymdrin â chwynion. Roedd hwn yn ostyngiad croesawgar o'i gymharu â 16% y flwyddyn flaenorol.

Cawn fwy o gwynion am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn gyson, nag unrhyw fwrdd iechyd arall. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ystyried ffigurau poblogaeth pob bwrdd iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe oedd testun y nifer fwyaf o gwynion fesul 1000 o drigolion.

Ffigur 5: Pynciau cwynion newydd am fyrddau iechyd Cymru



## Awdurdodau lleol


Cawsom 1,704 o gwynion am awdurdodau lleol – cynnydd sylweddol o 27% ar y flwyddyn flaenorol a 67% o'i gymharu â 3 blynedd yn ôl.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y cwynion ar draws ystod o bynciau – o dai a gwasanaethau cymdeithasol i'r amgylchedd ac iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac addysg.

Ymdrin â chwynion oedd yr unig bwnc lle mae nifer y cwynion wedi gostwng ychydig o'i gymharu â 2023-24 – er unwaith eto, nodasom gynnydd ar gyfer y pwnc hwn rhwng 2024-25 ac eleni.

Nid yw'n syndod mai'r awdurdodau lleol sydd â'r nifer fwyaf o drigolion sy'n cynhyrchu'r nifer uchaf o gwynion. Fodd bynnag, Cyngor Sir Dinbych oedd yr awdurdod gyda'r gyfran uchaf o gwynion fesul 1000 o drigolion. Serch hynny, gwelsom gynnydd mawr yn nifer y cwynion ar draws y sector, gyda nifer y cwynion yn cynyddu dros 50% mewn sawl awdurdod. Eleni, dim ond ar gyfer Ceredigion, Torfaen a Wrecsam y cofnodwyd llai o gwynion nag yn 2024-25.

Ffigur 6: Pynciau cwynion newydd am awdurdodau lleol Cymru




## Cymdeithasau tai

Cawsom 513 o gwynion am gymdeithasau tai. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o 25% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn gynnydd o 47% o'i gymharu â 3 blynedd yn ôl.

Roedd atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cyfrif am 41% o'n cwynion newydd am gymdeithasau tai – yr un fath â'r llynedd a gostyngiad o'i gymharu â blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol 2023-26.

O'i gymharu â'r llynedd, rydym wedi gweld cynnydd ym mhob un o brif bynciau ein cwynion tai – o waith atgyweirio a chynnal a chadw i anghydfodau cymdogion, o ymddygiad gwrthgymdeithasol i gwynion am leithder a llwydni. Eleni, gwnaethom lansio 2 ymchwiliad ar ein liwt ein hunain yn edrych ar sut mae landlordiaid cymdeithasol yn ymateb i gwynion am atgyweiriadau a lleithder a llwydni. Rydym sôn mwy am y gwaith hwn yn adran 'Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun' yn yr adroddiad hwn.

Ffigur 7: Pynciau cwynion newydd am gymdeithasau tai Cymru



# Cwynion gwasanaethau cyhoeddus caeëdig

**Yn 2025-26, gwnaethom gau nifer record o gwynion am wasanaethau cyhoeddus, sef 4,145 – 31% yn fwy na'r llynedd a 45% yn fwy na 3 blynedd yn ôl, pan oeddem yn dechrau ein Cynllun Strategol 2023-26.**


Er gwaethaf y cynnydd hwn, gwnaethom barhau i ddatrys cwynion mewn modd amserol, gydag ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus yn cymryd 10.8 mis ar gyfartaledd - ymhell o fewn y targed o 12 mis (52 wythnos).

Os byddwn yn canfod bod pethau wedi mynd o chwith, byddwn yn ymyrryd i'w cywiro. Gallwn ymyrryd heb ymchwilio drwy awgrymu Datrysiad Cynnar. Gallwn hefyd ymyrryd ar ôl i ni ymchwilio - drwy gyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau cwyn, neu drwy awgrymu setliad rhwng y corff a'r unigolyn sy'n cwyno.

Eleni, gwnaethom ymyrryd mewn 14% o gwynion a gaewyd gennym ni.




Gwnaethom gau **4,145** o gwynion am wasanaethau cyhoeddus - 31% yn fwy na'r llynedd.




Gwnaethom ymyrryd mewn **14%** o gwynion a gaewyd gennym.

## Asesiad (Cam 1): 3,984 o gwynion caeëdig

Rydym yn edrych ar bob cwyn yn ofalus, i benderfynu a allwn neu a ddylem ymchwilio a lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le, a allwn helpu i gywiro pethau trwy Ddatrysiad Cynnar. Fodd bynnag, mae asesu'r holl achosion hyn yn gofyn am lawer o waith manwl gan ein staff, yn enwedig os ydym mewn sefyllfa i gynnig sut y gellir datrys y gŵyn yn gynnar.



Gwnaethom gau **3,518** yn ystod yr asesiad, achos, er enghraifft


- daethon nhw atom yn gynamserol
- nid oedden nhw'n ddigon difrifol i gyrraedd ein trothwy ar gyfer ymchwiliad llawn, neu
- lle nad oedden ni'n ystyried y gallem ni gyflawni unrhyw beth pellach drwy ymchwiliad.

Daethpwyd i lawer o'r penderfyniadau hyn ar ôl i ni gasglu rhagor o wybodaeth a chwblhau asesiad manwl a ystyriwyd yn ofalus.

Gwnaethom gau **466** o gwynion pellach drwy ymyrryd yn gynnar.

## Ymchwiliad (Cam 2): 161 o gwynion caeëdig

Dim ond mewn achosion mwy cymhleth na allwn eu datrys mewn unrhyw ffordd arall yr ydym yn ymchwilio.



Mewn **59** o achosion, gwnaethom gadarnhau'r gŵyn, neu fe wnaethom roi'r gorau i'r ymchwiliad gan na chanfuom dystiolaeth o gamweinyddu na methiant gwasanaeth a/neu anghyfiawnder.

Mewn **102** o achosion, gwnaethom gadarnhau'r gŵyn, cytuno ar setliad gwirfoddol neu roi'r gorau i'r ymchwiliad ond cynnig rhywfaint o Ddatrysiad Cynnar.

At ei gilydd, gwnaethom ymyrryd mewn 568 neu 14% o'r cwynion a gaewyd gennym. Roedd hon yn gyfradd ymyrraeth is na'r llynedd (18%). Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd digynsail o 31% yn nifer y cwynion a gaewyd gennym, gwnaethom ymyrryd o hyd mewn nifer uwch o gwynion ar y cyfan (568 o'i gymharu â 554 y llynedd).

Yn gadarnhaol, eleni gwnaethom barhau i ymyrryd yn gynnar yn bennaf. Rydym yn deall bod llawer o bobl sy'n cwyno wrthym eisiau datrysiad cyflym, gan y gall ymchwiliadau gymryd cryn dipyn o amser. Pan allwn, rydym eisiau cau cwynion yn brydlon. Eleni, roedd 85% o'n hymyriadau yn cynnwys elfen o Ddatrysiad Cynnar.

# Argymhellion

**Pan fyddwn yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn argymell bod y corff a ddarparodd y gwasanaethau hynny yn cywiro pethau.**

Yn 2025-26, roedd 1,534 o argymhellion yn dod yn ddyledus.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yr argymhelliad mwyaf cyffredin oedd y dylai'r sefydliad ymddiheuro – gyda'r math hwn o weithredu yn cyfrif am 25% o'n hargymhellion.

Er nad hwn yw ein prif rwymedi, weithiau rydym yn argymell iawndal ariannol - er enghraifft, am amser a thrafferth yr achwynydd wrth gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon, neu am ofid a achoswyd i'r achwynydd.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cwyno i ni eisiau sicrhau na fydd yn rhaid i eraill wynebu'r un anghyfiawnder.

Roedd 16% o'n hargymhellion a oedd yn ddyledus eleni yn ymwneud â chymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n gwella – er enghraifft, drwy hyfforddiant neu adborth i staff, adolygu arfer presennol, neu drwy argymell y dylai gweithdrefn newid.



Roedd 16% o'n hargymhellion yn ymwneud â chymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n gwella.


## Cydymffurfiaeth

**Nod ein hargymhellion yw unioni pethau, sicrhau cyfiawnder a gwella gwasanaethau er budd y cyhoedd - nid dim ond i'r rhai sy'n cwyno. Yn ymarferol, mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r camau gweithredu a awgrymwn yn rheolaidd.**

Pan fyddwn yn gwneud argymhellion, rydym yn cytuno ar ddyddiad erbyn pryd y mae angen i'r sefydliad gydymffurfio ac rydym yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cydymffurfio.  Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau â'n hymdrechion i sicrhau bod sefydliadau'n dangos i ni sut y gwnaethant gydymffurfio â'n hargymhellion ac rydym hefyd wedi newid y ffordd rydym yn mesur hyn, er mwyn canolbwyntio ar weithredu yn amserol.

- Cydymffurfiwyd â 94% o'n hargymhellion yn 2025-26.
- Roedd 69% o'r rhain o fewn amser i'r dyddiad targed y cytunwyd arno. Roedd hwn yn gyfran uwch na'r llynedd (56%) ac yn llawer agosach at ein targed o 75%.

Ar y cyfan, er bod amseroldeb cydymffurfio â'n hargymhellion wedi gwella, rydym yn parhau i brofi oedi gyda sefydliadau yn darparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'n hargymhellion mewn pryd.




Cydymffurfiwyd â **69%** o'r argymhellion a oedd yn ddyledus eleni o fewn y dyddiad targed y cytunwyd arno.

Ffigur 8: Cydymffurfio â'n hargymhellion o fewn y dyddiad targed

| 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| n/a | 67% | 56% | 69% |

# Ein cwynion am y Cod Ymddygiad

**Y Cod Ymddygiad Enghreifftiol**

Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, a gyflwynwyd yng Nghymru yn 2008, yn nodi safonau gofynnol gorfodol ar gyfer y ffordd y dylai cynghorwyr ac aelodau rhai cyrff cyhoeddus eraill i ymddwyn, o ran rhinwedd eu swydd ac (mewn rhai achosion), o ran safbwynt personol.

Mae'r cyrff cyhoeddus y mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn berthnasol iddynt yn cynnwys cynghorau lleol; cynghorau tref a chynghorau cymuned; awdurdodau tân ac achub; awdurdodau parciau cenedlaethol a phaneli dros faterion plismon a throseddu.


## Cwynion Cod Ymddygiad newydd

**Yn 2025-26, cawsom 324 o gwynion Cod Ymddygiad a wnaed yn briodol – 3% yn fwy na'r llynedd a 14% yn fwy na 3 mlynedd yn ôl, pan oeddem yn dechrau ein Cynllun Strategol 2023-26.**

O'r rhain, roedd 187 (58%) yn gwynion am gynghorwyr tref a chynghorwyr cymuned a 136 (42%) am gynghorwyr awdurdod lleol, gydag 1 cŵyn bellach yn ymwneud â chynghorydd parc cenedlaethol.

Yn gyffredinol, cwynion cynghorau tref a chynghorau chymuned yw'r grŵp mwyaf o'n cwynion Cod Ymddygiad, ond gwelsom gyfran y cwynion hyn yn gostwng ychydig i 58% (o 60% y llynedd).


Ffigur 9: Cwynion Cod Ymddygiad newydd fesul corff



Rydym yn dadansoddi ac yn adrodd ar destun cwynion y Cod Ymddygiad, yn seiliedig ar Egwyddorion Nolan, sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus. Er bod mwyafrif (49%) y cwynion a wnaed yn briodol yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch, roedd y pwnc hwn yn cyfri am gyfran llawer is o'n cwynion Cod Ymddygiad cyffredinol na'r llynedd (56%).

Yn gyffredinol, cwynion lefel is yw'r achosion rydyn ni'n eu categoreiddio o dan 'parch'. Dyma'r rhai rydyn ni'n tueddu i benderfynu'n gyflym na fyddwn yn ymchwilio iddynt, lle rydym yn argymell y byddai'n well datrys y cŵyn yn lleol, neu lle caiff y gŵyn ei thynnu'n ôl. Mae'r cwynion rydyn ni'n eu categoreiddio o dan 'cydraddoldeb' fel arfer yn cynnwys honiadau mwy difrifol o fwlio neu wahaniaethu.

Ffigur 10: Pynciau cwynion newydd y Cod Ymddygiad



# Cwynion Cod Ymddygiad caeëdig

**Gwnaethom ymchwilio i 85 (tua 24%) o'r cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gennym eleni – cynnydd sylweddol o gymharu â'r llynedd. Cyfeiriom 15 o achosion Cod Ymddygiad naill ai at y Pwyllgor Safonau perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru. Cafodd 81% o'r toriadau awgrymedig a gyfeiriwyd atynt eu cadarnhau.**


Rydym yn defnyddio ein 'prawf budd y cyhoedd' i benderfynu pa achosion y dylem ymchwilio iddynt. Gellir disgrifio budd y cyhoedd fel rhywbeth sydd o bryder neu o fudd difrifol i'r cyhoedd.

Yn gyffredinol, dim ond cyfran bach o'r cwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwn yr ydym yn ymchwilio iddynt. Mae hyn yn dangos bod safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yn dda ar y cyfan.

Yn 2025-26, gwnaethom gau 351 o gwynion am y Cod Ymddygiad – cynnydd o 10% o gymharu â'r llynedd a 25% yn fwy na 3 mlynedd yn ôl.

O fewn y nifer hwn, gwnaethom hefyd gau llawer mwy o ymchwiliadau. Gwnaethom ymchwilio i 85 o'r cwynion a gaewyd gennym – 73% yn fwy na'r llynedd a 143% yn fwy na 3 blynedd yn ôl. Ar yr un pryd, llwyddom i leihau nifer yr ymchwiliadau oedrannus (dros 12 mis) yn sylweddol.

Ffigur 11: Cwynion Cod Ymddygiad caeëdig wedi eu hymchwilio a chyfeirio



Nid ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu a yw cynghorydd wedi torri'r Cod. Rydym yn ymchwilio ac yn ystyried os y gallai fod yna achos digon difrifol o dorri'r Cod ac rydym yna yn cyfeirio'r gŵyn a'n canfyddiadau at Bwyllgor Safonau lleol neu at Banel Dyfarnu Cymru i benderfynu.

Yna, mae'r cyrff hyn yn edrych yn annibynnol ar y dystiolaeth a gasglom, ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd gan y cynghorydd dan sylw.

Yna, maent yn penderfynu a yw'r cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ac os felly, pa gosb i'w gosod.

Yn 2025-26, fe wnaethom gyfeirio 15 o gwynion at Bwyllgorau Safonau'r awdurdodau lleol perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru – yr un nifer â'r llynedd.

Cadarnhaodd Pwyllgorau Safonau'r awdurdodau lleol perthnasol a Phanel Dyfarnu Cymru 81% o'r toriadau awgrymedig a gyfeiriwyd gennym. Er bod hyn yn gyfran ychydig yn is na'r llynedd (85%), mae'r perfformiad hwn yn parhau i ddangos safon uchel a chysondeb ein hymchwiliadau Cod Ymddygiad.

Ar y tudalennau nesaf, rydym yn cynnwys crynodebau o'r holl benderfyniadau ar ein hatgyfeiriadau eleni.

Yn 2025-26, gwnaethom gyfeirio **15** o gwynion at Bwyllgorau Safonau'r awdurdodau lleol perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, cadarnhaodd y cyrff hyn **81%** o'r toriadau awgrymedig a gyfeiriwyd gennym.

## Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn (202104717)

Cafodd ein hadroddiad, a gyfeiriwyd gennym at Bwyllgor Safonau i'w ystyried mewn gwrandawiad yn 2024-25, ei ystyried ar apêl gan Banel Dyfarnu Cymru yn 2025-26.

Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru nad oedd y Cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gan wrthdroi penderfyniad y Pwyllgor Safonau.

## Cyngor Sir Ynys Môn (202302251)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud sylwadau amhriodol mewn cyfarfod ac, wrth wneud hynny, wedi dwyn anfri ar ei swyddfaa/neu ei awdurdod.

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau geryddu'r Cynghorydd. Gwnaeth hefyd 2 argymhelliad i gefnogi ei nod o gynnal hyder y cyhoedd.

## Cyngor Sir Penfro (202300186)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Sir Benfro wedi recordio nodyn llais hiliol, wedi rhannu gwybodaeth yn ymwneud â busnes y Cyngor, wedi gwneud sylwadau amharchus am aelodau'r cyhoedd ac, wrth wneud hynny, wedi dwyn anfri ar ei swydd a/neu ei awdurdod. Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru anghymhwyso'r Cynghorydd rhag gweithredu fel cynghorydd i unrhyw awdurdod am gyfnod o 4 blynedd.

### Cyngor Cymuned Bracla (202208538)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Cymuned Bracla wedi ceisio’n faleisus ac yn fwriadol ddifrïo cynghorydd arall yn ystod cyfarfod cyhoeddus o’r Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau geryddu’r Cynghorydd.

### Cyngor Tref Y Waun (202108695)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod cyn-Gynghorydd Cyngor Tref Y Waun wedi dwyn anfri ar ei swydd a'i awdurdod. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau geryddu'r cyn-Gynghorydd.

### Cyngor Tref Neyland (202303825, 202306824 and 202307937)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Tref Neyland wedi methu â thrin y Clerc a'i gyd-gynghorwyr ag ystyriaeth a pharch dros gyfnod hir ac wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn gyfystyr â bwlio a/neu aflonyddu, wedi dwyn anfri ar ei swydd a/neu awdurdod ac wedi methu â chydymffurfio â cheisiadau'r Ombwdsmon mewn perthynas â'r ymchwiliad i'w ymddygiad.  Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru anghymhwyso'r Cynghorydd rhag gweithredu fel cynghorydd i unrhyw awdurdod am gyfnod o 4 mlynedd.

### Cyngor Tref Y Trallwng (202202515 and 202208668)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Tref y Trallwng wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn fwlio ac yn amharchus tuag at eraill ac wedi dwyn anfri ar ei swydd. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau geryddu'r Cynghorydd.

### Cyngor Tref Neyland (202302731, 202304678, 202306825 and 202307936)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod cyn-Gynghorydd Cyngor Tref Neyland wedi bwlio'r Clerc a'i gyd-gynghorwyr, wedi methu â dangos parch iddynt, wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd ac wedi dwyn anfri ar ei swydd a/neu ei awdurdod. Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru anghymhwyso'r cyn-Gynghorydd rhag gweithredu fel cynghorydd i unrhyw awdurdod am gyfnod o 3 mlynedd.

### Cyngor Gwynedd (202309568)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Gwynedd wedi derbyn Rhybudd Amodol am "Dwyll drwy gamddefnyddio swydd" drwy geisio twyllo ei gyflogwr, drwy gamddefnyddio arian a dwyn anfri ar ei swydd a'i awdurdod. Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru anghymhwyso'r cyn-Gynghorydd rhag gweithredu fel cynghorydd i unrhyw awdurdod am gyfnod o 3 mlynedd.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (202407222)

Roedd ein hadroddiad yn ymwneud â chwyn bod Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi anfon e-bost at weithiwr Cyngor a oedd yn amharchus ac yn fwlio ei natur ac wedi hynny, gwnaeth erlid y gweithiwr drwy gyflwyno cwyn yn eu herbyn.  Penderfynodd y Pwyllgor Safonau geryddu'r Cynghorydd.

Ffigur 12: Atgyfeiriadau cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad

| 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| 12 | 21 | 15 | 15 |

# Ansawdd ein penderfyniadau


## Ceisiadau am adolygiad

**Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau ein bod yn ymdrin â chwynion yn deg ac mewn ffordd dryloyw. Mae gennym broses i ddelio â cheisiadau ar gyfer adolygu ein penderfyniadau. Caiff yr adolygiadau hynny eu hystyried gan aelod profiadol o staff nad oedd yn rhan o'r achos o'r blaen.**

**Eleni, gwelsom gynnydd sylweddol yn y galw am ein gwasanaeth adolygu. Er gwaethaf hyn, gwnaethom gadarnhau ein penderfyniad yn yr adolygiad mewn 95% o achosion.**

Yn 2025-26, cawsom 311 o geisiadau gan achwynwyr yn gofyn i ni adolygu ein penderfyniad. Roedd hyn 39% yn fwy na'r llynedd (224). Yn ogystal, daethom â 33 o geisiadau o'r flwyddyn flaenorol, gan ddod â chyfanswm y llwyth achosion am geisiadau adolygu i 344. Gwnaethom gau 267 o'n ceisiadau adolygu, gyda 86 o geisiadau ar agor ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar ôl i ni gyhoeddi ein penderfyniad adolygu, byddwn weithiau'n derbyn gohebiaeth bellach gan achwynwyr. Rydym yn cofnodi'r rhain fel 'dilyniant'. Yn 2025-26, cawsom 45 o geisiadau dilynol, 18% yn fwy na'r llynedd (38). Gwnaethom hefyd ddod â 3 cais dilynol o'r flwyddyn flaenorol, gan ddod â chyfanswm y llwyth achosion dilynol i 48. Gwnaethom gau 45 o geisiadau dilynol, gyda 3 ar agor ar ddiwedd y flwyddyn.



Gwnaethom gadarnhau ond **5%** o geisiadau am adolygiad y gwnaethom ddelio â nhw eleni – cyfran lai na'r llynedd (6%).

Rydym yn cynnwys dilyniannau yn y cyfrifiad hwn gan ein bod yn cymryd gofal i ystyried popeth sy'n cael eu hanfon atom. Dim ond cyfran fach iawn o'n cwynion a gaewyd yn gyffredinol (0.4%) yw nifer yr achosion a gadarnhawyd (15), ac mae'n rhoi hyder i ni fod ein proses yn gadarn.

Pan fyddwn yn cadarnhau cais am adolygiad, cymerwn gamau i sicrhau ein bod yn dysgu unrhyw wersi.

## Achosion sy'n destun adolygiad barnwrol

Mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Undyn. Mae hyn yn golygu bod y sawl a benodir i'r rôl yn gwbl gyfrifol am benderfyniadau gwaith achos. Gall achwynwyr ofyn am adolygiad mewnol o benderfyniad gwaith achos y maent yn anhapus ag ef (fel y disgrifir uchod). Fodd bynnag, y llwybr priodol i herio ein penderfyniadau ymhellach yw drwy adolygiad barnwrol.

Gwnaed un cais am ganiatâd i ddwyn adolygiad barnwrol i herio penderfyniad a gymerwyd gennym i'r Uchel Lys yn ystod 2025-26. Gwrthodwyd y cais gan y Llys.

# Ansawdd ein gwasanaeth

**Ein nod yw i ddarparu gwasanaeth rhagorol. Mae gennym [5 Safonau Gwasanaeth] sy'n esbonio'r gwasanaeth y gall pobl ei ddisgwyl gennym ni.**

**I wirio sut rydym yn gwneud, bob blwyddyn rydym yn monitro ac yn dadansoddi ein perfformiad ac yn casglu adborth gan ein defnyddwyr gwasanaeth ac wrth sefydliadau rydym yn ymchwilio iddynt.**

## Beth mae achwynwyr yn ei feddwl am ein gwasanaeth

Bob mis Chwefror, rydym yn trefnu arolwg dros y ffôn o sampl o bobl sydd wedi cwyno i ni yn ystod y flwyddyn honno.

Eleni, roedd cyfran y bobl a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant gennym yn 36% – yn is na'r llynedd (42%).

Cynyddodd y ffigwr hwn i 87% ar gyfer y rhai a oedd yn fodlon â chanlyniad eu cwyn – cyfran uchel iawn, er ei bod yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (95%).


Yn gyffredinol, mae pobl yn tueddu i fod yn hapusach gyda'n gwasanaeth os ydynt yn hapus â'r canlyniad.

Fel y llynedd, gwnaethom wirio'n fanylach pa mor fodlon oedd pobl â'n gwasanaeth yn dibynnu ar y math o ymyrraeth (datrysiad cynnar neu ymyrraeth yn ystod y cam ymchwilio).

- Cafodd amseroldeb ein gwasanaeth sgôr uwch gan bobl y gwnaethom ddatrys eu cwynion yn gynnar.
- Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd sgoriau boddhad yn uwch neu'n llawer uwch ymhlith yr ymatebwyr y gwnaethom ymyrryd yn eu hachosion yn ystod y cam ymchwilio. Roedd hyn yn cynnwys boddhad cyffredinol â'r canlyniad a gwasanaeth cwsmeriaid.

Rydym yn deall y bydd canlyniad cwyn yn dylanwadu'n ddealladwy ar asesiad o'n gwasanaeth. Mae ein hymchwiliadau yn cymryd llawer mwy o amser na'r broses a ddefnyddiwn i ddatrys cwynion yn gynnar, ac mae gan bobl y gwnaethom ymchwilio i'w cwynion fwy o gyfle i ddatblygu perthynas ddyfnach a mwy personol â'n swyddfa. Nid yw'n syndod chwaith bod pobl y gwnaethom ymchwilio i'w cwynion yn tueddu i roi sgôr uwch i'n gwasanaeth.

Er hynny, rydym yn cymryd yr adborth hwn o ddifri. Gan y bydd yn rhaid i ni barhau i ddefnyddio ein hadnoddau ymchwilio cyfyngedig yn ddoeth ac yn gymesur, gan droi at ddatrysiad cynnar mor aml â phosibl, un maes allweddol i'n ffocws fydd gwella boddhad â'n gwasanaeth gan y rhai rydym yn ymyrryd yn gynnar yn eu cwynion.



Dywedodd **36%** o'r ymatebwyr a holwyd eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant gennym.



Fodd bynnag, cynyddodd hyn i 87% ymhlith y bobl a oedd yn fodlon â chanlyniad eu cwyn.

Ffigur 13: Bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth gyda'n gwasanaeth (pobl sy'n fodlon â'r canlyniad)

| 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| 95% | 98% | 95% | 87% |

## Cwynion am ein gwasanaeth

Yn 2025-26, cawsom 34 o gwynion am ein gwasanaeth, gyda 4 cwyn arall wedi'u cario drosodd o 2024-25.

Gwnaethom gau 34 o gwynion amdanom. O'r rhain, gwnaethom gadarnhau neu gadarnhau'n rhannol 8 neu 24%, cyfran is na'r llynedd (29%).

I roi hyn mewn cyd-destun, roedd y cwynion a gadarnhawyd amdanom yn ymwneud â 0.2% o'r holl gwynion a gaewyd gennym yn ystod 2025-26.

Roedd y cwynion hyn yn ymwneud â chyfathrebu, sylw i fanylion a phroblemau gyda rheoli gohebiaeth e-bost.

Tynnwyd 2 gŵyn yn ôl, a chariwyd 2 gŵyn ymlaen i 2026-27.

I sicrhau ein bod yn agored ac yn atebol, os yw pobl yn anfodlon â sut y gwnaethom ymdrin â'u cwyn amdanom ni, gallant ofyn i wasanaeth adolygu annibynnol allanol ystyried y gŵyn honno am ein gwasanaeth.

Yn ystod 2025-26, ystyriodd y gwasanaeth 6 cwyn. Cadarnhaodd 1 o'r cwynion hyn yn rhannol.

## Beth mae sefydliadau'n ei feddwl am ein gwasanaeth

Rydym yn cynnal arolwg blynyddol ar gyfer y swyddogion sy'n delio â chwynion o fewn y prif gyrff o fewn ein hawdurdodaeth – byrddau iechyd, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai – i gasglu barn ar ein gwasanaeth.

Eleni, gwnaethom hefyd gynnal arolwg tebyg yn casglu barn Prif Swyddogion Gweithredol yn y sefydliadau hynny.

Roedd cwestiynau yn ymwneud ag agweddau megis cyfathrebu, proses, ein proses o wneud penderfyniadau, darparu canllawiau a hyfforddiant, ansawdd cyhoeddiadau a'n heffaith.

Dangosodd ein hymchwil swyddog cwynion fod:

- er bod ymatebwyr wedi sgorio gwahanol agweddau ar ein gwasanaeth diweddar yn is yn gyffredinol nag y llynedd, roedd y boddhad cyffredinol gyda'r gwasanaeth yn 8.4 allan o 10 – o'i gymharu ag 8.1 y llynedd.
- gwelsom welliannau sylweddol yn yr asesiad o effaith ein hadroddiadau budd y cyhoedd, ein hadroddiadau thematig a'n hymchwiliadau ar ei liwt ein hun.
- cytunodd 85% o swyddogion cwynion fod ein canfyddiadau wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar eu sefydliad, a dywedodd 81% ein bod wedi cyfrannu at wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



Rhoddodd swyddogion cwynion a gymerodd ran yn ein harolwg sgôr o 8.4 allan o 10 i'n gwasanaeth.

Dangosodd ein harolwg o Brif Swyddogion Gweithredol fod:

- yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr ein bod yn effeithiol wrth ymdrin â chwynion am eu sefydliad a'n bod ein dull yn deg.
- cytunodd bron pob un o'r ymatebwyr ein bod yn annibynnol ac yn ddiduedd.
- dywedodd 78% o'r ymatebwyr wrthym fod ein gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad a chytunodd 82% ein bod wedi cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil wedi tynnu sylw at rai meysydd y mae angen i ni edrych arnynt.


Roedd y rhain yn cynnwys:

- amseroldeb ein proses a'n diweddariadau.
- cysondeb ein terfynau amser a mwy o werthfawrogiad o allu sefydliadau i ymateb.
- eglurder a chysondeb yn ein cyfathrebu a'n penderfyniadau.


Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at ddiddordeb mewn rhannu mwy o arfer da a dysgu a mwy o ddeunyddiau dysgu penodol i'r sector a hyfforddiant ar safonau cwynion.

Mae'r adborth hwn yn bwysig i ni, a byddwn yn edrych ar ba welliannau y gallwn eu gwneud i'w hadlewyrchu.

O'r Prif Swyddogion Gweithredol a ymatebodd i'n harolwg




cytunodd 78% fod ein gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad.




cytunodd 82% ein bod wedi cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Pa mor gyflym rydym yn ystyried cwynion

Rydym yn deall bod y bobl sy'n dod atom am i'w cwynion gael eu datrys cyn gynted â phosibl ac rydym wedi ymrwymo i ddelio â nhw mewn modd amserol.

Yn 2025-26, gwnaethom asesu cwynion a ddaeth i law, neu ymyrryd drwy Ddatrysiad Cynnar, o fewn 4 wythnos ar gyfartaledd – ymhell o fewn ein targed o 6 wythnos.

Ar draws ein gwaith gwasanaethau cyhoeddus a Chod Ymddygiad, gwnaethom gwblhau ymchwiliadau mewn 54 wythnos ar gyfartaledd, ychydig yn fwy nag ein targed o 52 wythnos. Serch hynny, mae'r perfformiad hwn yn parhau i gynrychioli gwelliant o'i gymharu â 64 wythnos yn 2023-24.

Er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion am wasanaethau cyhoeddus caeedig, gwnaethom barhau i ddatrys y cwynion hyn mewn modd amserol, gydag ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus yn cymryd 10.8 mis ar gyfartaledd - ymhell o fewn y targed o 12 mis (52 wythnos).

O ran ein gwaith Cod Ymddygiad, gwnaethom neilltuo mwy o adnoddau i'n tîm Cod Ymddygiad a gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau ein hamser ymchwilio a datrys nifer o achosion oedrannus. Gyda'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth, rydym yn disgwyl i'n perfformiad amseroldeb barhau i wella.

Rydym yn addasu ein ffyrdd o weithio yn barhaus i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau a datblygiad achosion mewn modd mwy amserol ac effeithiol.



Yn 2025-26, gwnaethom asesu cwynion a ddaeth i mewn, neu ymyrryd gyda Datrysiad Cynnar, o fewn 4 wythnos ar gyfartaledd - ymhell o fewn ein targed o 6 wythnos.

## Ansawdd Gwasanaeth

Nod ein gwaith Ansawdd Gwasanaeth yw rhoi adborth i'n staff, a'n rheolwyr, ar sut mae gweithredoedd ein swyddogion ymchwilio, wrth iddynt ymdrin o ddydd i ddydd â chwynion, yn effeithio ar lefel y gwasanaeth a ddarparwn i'r cyhoedd.

Mae Ansawdd Gwasanaeth yn gweithredu mewn amser real – gan wirio achosion sy'n mynd rhagddynt o hyd, gan roi'r cyfle i ni unioni problemau gyda'r wasanaeth yn gyflymach – yn hytrach na rhoi adborth ar achos sydd wedi cau.

Gwnaethom gwblhau 267 o wiriadau drwy gydol y flwyddyn.

At ei gilydd, roedd ein gwiriadau Ansawdd Gwasanaeth yn tynnu sylw at waith caled ac ymroddiad ein swyddogion ymchwilio a ddarparodd wasanaeth da ar faterion sy'n aml yn heriol ac yn gymhleth.

Arweiniodd 86% o'r achosion a wiriom eleni at ychydig iawn o adborth neu ddim adborth o gwbl – yn erbyn ein targed o 85%.

Byddwn yn parhau i weithredu ein proses Ansawdd Gwasanaeth, gan sicrhau bod yr adborth a ddarparwn yn arwain at y gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru.

Arweiniodd **86%** o'r achosion a wiriom eleni o dan Ansawdd Gwasanaeth at ychydig iawn o adborth neu ddim adborth o gwbl.

Ffigur 14: Cyfran yr adolygiadau Ansawdd Gwasanaeth a oedd yn foddhaol neu'n well

| 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| Ddim yn berthnasol | 67% | 84% | 86% |

## Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Un o'n heriau parhaus yw sut i reoli ein llwyth gwaith cynyddol heb beryglu ansawdd ein gwasanaeth.

- Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau i leihau'r ymdrech weinyddol sydd ei hangen pan fyddwn yn derbyn cwynion newydd, er enghraifft drwy ddefnyddio cydnabyddiaethau awtomatig a chanllawiau ar-lein gwell.
- Mae ein gwefan yn cynnwys gwiriwr cwynion i helpu pobl i ddeall a allwn ni ystyried eu cwyn cyn iddi gael ei chyflwyno.
- Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn cyfnewid gwybodaeth ag achwynwyr a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio technoleg porth digidol.
- Yn ystod y flwyddyn, fe barhaom â'n gwaith i ddeall sut y gallai AI gefnogi ein gwasanaethau a'n ffyrdd o weithio. Rydym wedi datblygu polisi AI a threfniadau llywodraethu i sicrhau bod unrhyw ddefnydd o AI yn ddiogel, yn foesegol, yn dryloyw ac yn destun goruchwyliaeth ddynol briodol.

Byddwn yn parhau i asesu cyfleoedd i ddefnyddio AI ac awtomeiddio i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant staff, gan gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd, diogelu gwybodaeth, a sicrhau bod pobl yn parhau'n atebol am benderfyniadau a chanlyniadau.

# Adroddiad Datgelu Chwythu'r Chwiban

Ers 1 Ebrill 2017, mae'r Ombwdsmon yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r Ddeddf yn darparu amddiffyniad i weithwyr sy'n trosglwyddo gwybodaeth ynghylch camymddwyn mewn amgylchiadau penodol. Mae'r amddiffyniad ond yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud y datgeliad yn credu'n rhesymol y canlynol:

1. Maent yn gweithredu er budd y cyhoedd, sy'n golygu nad yw amddiffyniad fel arfer yn cael ei roi ar gyfer cwynion personol.

2. Mae'r datgeliad yn ymwneud ag un o'r canlynol:

- troseddau (mae hyn yn cynnwys camymddygiadau ariannol, fel twyll)
- methiant i gydymffurfio â dyletswyddau a nodir yn y gyfraith
- camweinyddu cyfiawnder
- peryglu iechyd a diogelwch rhywun
- difrod i'r amgylchedd
- cuddio camwedd yn unrhyw un o'r categorïau uchod.

Fel 'person rhagnodedig', mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon adrodd yn flynyddol ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wneir dim ond yng nghyd-destun cwynion Cod Ymddygiad.

Dechreuom y flwyddyn gyda 25 o gwynion agored a allai, o bosibl, fodloni'r diffiniad statudol o ddatgeliad gan weithwyr neu gyn-weithwyr cyngor, a gariwyd drosodd o'r blynyddoedd blaenorol:

- 1 cŵyn a dderbyniwyd yn 2022-23: yn y cam Ymchwilio.
- 10 o gwynion a dderbyniwyd yn 2023-24: pob un yn y cam Ymchwilio.
- 14 o gwynion a dderbyniwyd yn 2024-25: 13 yn y cam Ymchwilio ac 1 yn y cam Asesu.

Yn 2025-26, cawsom 20 cwyn pellach o'r fath.

O'r rhain, yn ystod 2025-26, gwnaethom gau'r canlynol:

- 1 cŵyn a dderbyniwyd yn 2022-23: gwnaethom gau'r ymchwiliad hwn gyda phenderfyniad nad oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu.
- 10 o gwynion a dderbyniwyd yn 2023-24: gwnaethom gau 8 o'r ymchwiliadau hyn gyda phenderfyniad nad oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu, gyda 2 ymchwiliad pellach wedi'u terfynu.
- 12 o gwynion a dderbyniwyd yn 2024-25: gwnaethom gau 3 o'r ymchwiliadau hyn gyda phenderfyniad nad oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu, gyda 4 ymchwiliad pellach wedi'u terfynu. Gwnaethom gyfeirio 5 o'r ymchwiliadau hyn at y Pwyllgorau Safonau perthnasol. Roedd yr holl ymchwiliadau hyn yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.
- 11 o gwynion a dderbyniwyd yn 2025-26: parhawyd i ymchwilio i 2 o'r rhain. Gwnaethom gau 1 o'r ymchwiliadau hyn gyda phenderfyniad nad oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu, gydag 1 ymchwiliad pellach i gŵyn yn ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau a gyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau.

Ar ddiwedd blwyddyn 2025-26, roedd y cwynion canlynol ar agor:

- 2 o gwynion a dderbyniwyd yn 2024-25: 1 yn y cam Asesu ac un yn y cam Ymchwilio.
- 8 o gwynion a dderbyniwyd yn 2025-26: Mae 5 o'r cwynion hyn yn y cam Ymchwilio ar hyn o bryd.

Mae ymchwiliad i 1 gŵyn pellach a dderbyniwyd yn 2025-26 wedi'i ohirio ar hyn o bryd.

# Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant


Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth teg a chyfartal i bawb. Cawsom rai llwyddiannau eleni, ond byddwn yn parhau i weithio i wella pa mor hygyrch ydym ni. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am broffil pobl sy'n cwyno wrthym yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. Ewch i'n Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol ar ein gwefan.

# Ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth


Rydym yn comisiynu arolwg yn rheolaidd i wirio faint o bobl yng Nghymru sy'n gwybod am ein gwasanaethau. Mae'r arolwg hwn yn seiliedig ar sampl cwota cynrychioliadol, yn cynnwys lleiafswm o 1,000 oedolyn dros 16+ sy'n byw yng Nghymru.

Eleni, dywedodd 52% o'r bobl a ofynnwyd eu bod yn ymwybodol ohonom– o'i gymharu â 48% y llynedd. Yn hollbwysig, cynyddodd ymwybyddiaeth ar gyfer pob grŵp targed, gyda chynnydd penodol ymhlith cymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd. O'r holl grwpiau rydym ynmonitro, dim ond y grŵp o ymatebwyr iau (16-34) a nododd ymwybyddiaeth sylweddol is na'r cyfartaledd o'r swyddfa.

Eleni, am y tro cyntaf, ceisiom hefyd gasglu ymwybyddiaeth ynghylch gwaith ein Cod Ymddygiad. Dywedodd 75% o'r bobl a oedd yn gwybod amdanom yn gywir y gallwn ymchwilio i gwynion am ymddygiad cynghorwyr. Mae hyder yn ein swyddfa wedi aros yn uchel sy'n beth cadarnhaol, sef 79% - yr un fath â'r llynedd. Roedd 80% o bobl yn credu ein bod yn ddiduedd ac roedd 87% yn teimlo y gallent gysylltu â ni pe bai angen. Mae'r rhain yn ganlyniadau cryf, sy'n awgrymu, ar y cyfan, bod gan bobl Cymru farn gadarnhaol am ein gwasanaeth.




Dywedodd **52%** o'r bobl a ofynnwyd eu bod yn ymwybodol ohonom.




Dywedodd **79%** o'r bobl a oedd yn gwybod amdanom bod ganndynt hyder yn ein swyddfa.

# Mynediad

## Cysylltu â ni

Gall rhai pobl ei chael hi’n anoddach cwyno nag eraill ac mae llawer o ffyrdd y gallwn ni helpu.

Roeddem yn falch o weld yn bod 83% o’r achwynwyr a ofynnwyd iddynt, yn 2025-26, wedi dweud ei bod yn hawdd cysylltu â ni. Er bod y canlyniad ychydig yn is na'r llynedd (86%), roedd hwn yn dal i fod yn gyfran fawr iawn o'n hachwynwyr. Yn bwysig, roedd y safbwyntiau ar hygyrchedd ein gwasanaeth yr un fath yn fras waeth beth fo oedran, ethnigrwydd, anabledd, cyrhaeddiad addysgol a'r gallu i siarad Cymraeg yr achwynydd.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cwyno i ni ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post, gallwn dderbyn cwynion drwy ddulliau sy’n wahanol i ysgrifenedig. Eleni, derbyniom 236 o gwynion llafar, nifer llawer uwch na'r llynedd (162).

Rydym am sicrhau bod pawb a allai fod angen defnyddio'r gwasanaeth hwn yn gwybod amdano. Dangosodd ymchwil ymwybyddiaeth genedlaethol a gomisiynwn, unwaith eto, bod tua thri chwarter o'r ymatebwyr yn gwybod y gallem dderbyn cwynion llafar. Roedd 59% - cyfran uwch na'r llynedd - yn gwybod y gallwn dderbyn cwyn drwy Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Mae hyn yn dangos bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r opsiwn hwn i gwyno yn gyffredinol dda ond y gellid ei gwella o hyd, yn enwedig ymhlith pobl anabl. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o’r gwasanaeth hwn.

Derbyniom 236 o gwynion llafar, nifer llawer uwch na'r llynedd.

Ffigur 15: Nifer o gwynion ar lafar a dderbyniwyd

| 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| 160 | 103 | 162 | 236 |

## Cymorth ychwanegol

Rydym yn gofyn i bawb sy'n cwyno wrthym a oes angen cymorth a chefnogaeth arnynt.  Er enghraifft, gallwn gynnig dogfennau mewn fformatau gwahanol, trefnu cyfieithiad i ieithoedd gwahanol, neu gyfeirio pobl at gyrff cynghori neu eirioli perthnasol.

Yn 2025-26,  fe wnaeth pobl rhoi gwybod i ni am eu hanghenion mewn 526 o achosion (er enghraifft, bod ganddynt ddyslecsia neu eu bod yn niwroamrywiol) neu,  y gofynnoni ni addasu'r ffordd rydym yn cyfathrebu â nhw.

Bob blwyddyn, rydym yn gofyn i bobl a ydynt yn cytuno ein bod wedi cwrdd â gofynion eu ceisiadau am gymorth ychwanegol.  Er bod y sampl yn tueddu i fod yn fach, cynyddodd y gyfran a gytunodd ein bod wedi cwrdd â'u hanghenion o 36% yn 2024-25 i 70% yn 2025-26.

# Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn parhau yn ein hymdrechion i sicrhau bod proffil ein hachwynwyr yn adlewyrchu proffil demograffig Cymru.  Yn ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu yn ystod 2025-26, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar:

- pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol
- pobl o gefndiroedd cenedlaethol amrywiol
- siaradwyr Cymraeg
- pobl sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol

Mynychom sawl digwyddiad i hyrwyddo ein gwasanaethau, gan gynnwys Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod, Ffair Iechyd Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Chynhadledd genedlaethol TPAS Cymru.

Roeddem hefyd yn ddiolchgar am gyfrannu i siarad am ein gwaith mewn podlediad a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cymorth Integreiddio Pwylaidd yn Wrecsam.

Rydym am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i'n helpu ni i gyrraedd mwy o bobl.  Eleni, gwnaethom sicrhau ymgysylltiad cryf iawn gyda'n cynnwys ar LinkedIn a Facebook, ac fe wnaethom chwilio am gynulleidfaoedd newydd ar Instagram.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem wrth ein bodd o weld gwelliant amlwg yn nifer y bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol sy'n defnyddio ein gwasanaeth.  Fodd bynnag, anaml y bydd rhai grwpiau'n cwyno wrthym o hyd.  Byddwn yn parhau i weithio i gyrraedd mwy o bobl yn y grwpiau hyn.

# Sefydliadau sy'n cefnogi ein achwynwyr

Rydym yn gwybod bod sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr etholedig – Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Senedd y DU – yn cynnig cymorth a chyngor allweddol i bobl sy'n profi problemau gyda gwasanaethau cyhoeddus.

O blith y defnyddwyr gwasanaeth a holwyd gennym eleni, clywodd 5% amdanom gan sefydliadau cynghori ac eiriolaeth; a 4% gan gynrychiolydd etholedig.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn i godi ymwybyddiaeth o sut y gallwn helpu:

- Am y tro cyntaf, gwnaethom fynychu ac arddangos yn gofod3, y digwyddiad mwyaf i sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru.
- Gwnaethom gynnig hyfforddiant am ddim ar ein rôl a'n pwerau i 4 swyddfa etholaeth yng Nghymru ac 1 sefydliad trydydd sector.
- Aethom i ffair gynghori yn San Steffan i siarad am ein gwaith a'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig i Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau Cymru.

O dan ein Cynllun Strategol newydd, byddwn yn gwneud mwy i ymgysylltu â sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol sy'n cefnogi, yn cynghori ac yn cynrychioli achwynwyr.



Gwnaethom gynnig hyfforddiant am ddim ar ein rôl a'n pwerau i 4 swyddfa etholaeth yng Nghymru ac 1 sefydliad trydydd sector.

# Y Gymraeg

Yn OGCC, rydym yn llwyr gefnogi'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Lawrlwythwch ein Polisi'r Gymraeg [PDF 248 KB].

Mae ein gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog, ac rydym bob amser yn pwysleisio na fydd cysylltu â ni yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi o ran pa mor gyflym y byddwn yn ystyried cwyn.  Mae gan rhwng 25% a 30% o'n staff sgiliau iaith Gymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn ymddangos yn fwy tebygol na grwpiau eraill o gwyno'n uniongyrchol i sefydliadau yn ein hawdurdodaeth; ac o fod yn hapus â chanlyniad eu cwyn.  Mae siaradwyr Cymraeg hefyd, yn gyffredinol, yn fwy ymwybodol o'n swyddfa ac mae ganddynt lefelau uwch o hyder ynom na'r cyhoedd yn ehangach.

Serch hynny, eleni, dim ond 17 o bobl a ofynnodd i ni gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg, gyda 7 o bobl eraill yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg wrth gyfathrebu â ni.

Rydym yn gwybod y gallwn ond dylanwadu ar ddewisiadau a hoffterau ein defnyddwyr gwasanaeth.  Gall fod yna lawer o resymau pam mae siaradwyr Cymraeg sy'n cysylltu â ni yn dewis cyfathrebu â ni yn y Saesneg. Serch hynny, rydym yn benderfynol o barhau i archwilio ffyrdd o annog rhyngweithio â'n gwasanaeth yn y Gymraeg.

Ychydig iawn o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn y Gymraeg. Hoffem newid hyn.

# Nod Strategol 3: Cynyddu effaith gwaith gwella rhagweithiol

# Safonau Cwynion

## Ein gwaith yn 2025-26

Yn 2025-26, parhaom â'n gwaith pwysig i gyflwyno Safonau Cwynion i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, mae pob awdurdod lleol, bwrdd iechyd a 21 o gymdeithasau tai yng Nghymru yn cael eu gweithredu o dan ein polisi cwynion enghreifftiol.

Yn ystod 2025–26, daethom â'r cymdeithasau tai a oedd yn weddill o fewn cwmpas ein Safonau, ac rydym yn disgwyl y byddant yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau erbyn diwedd mis Medi 2026.

Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau sydd eisoes yn cydymffurfio neu a fydd yn cydymffurfio'n fuan â'r Safonau Cwynion yn cynrychioli 85% o'r cwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus a gawn. Rydym wedi targedu'r cyrff hyn i fabwysiadu'r polisi yn gyntaf, er mwyn darparu'r budd mwyaf i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae ein cynnig o hyfforddiant am ddim ynghylch ymdrin â chwynion wedi parhau i fod yn boblogaidd, gyda 806 o bobl yn derbyn hyfforddiant ers mis Ebrill 2025. Ar hyn o bryd rydym yn blaenoriaethu dyddiadau hyfforddi ar gyfer cymdeithasau tai sy'n dod o dan y Safonau. Gwnaethom hefyd ddatblygu adnoddau hyfforddi ar-lein newydd, gan gynnwys deunydd wedi'i deilwra i anghenion byrddau iechyd, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Ewch i'r adnoddau hyfforddi.

Yn 2026-27 ac yn y blynyddoedd sy'n dilyn, byddwn yn edrych ar ymestyn y broses o gyflwyno'r Safonau Cwynion i gyrff eraill yn ein hawdurdodaeth, gyda'r cam nesaf yn debygol o dargedu gofal iechyd sylfaenol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau'r GIG.



Ers mis Ebrill 2025, derbyniodd **806** o bobl ein hyfforddiant ar ymdrin â chwynion yn dda.

## Ein heffaith

Mae ein hyfforddiant bron bob amser yn cael derbyniad da gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.


O'r swyddogion cwynion a ymatebodd i'n harolwg eleni, cytunodd 75% bod ein hyfforddiant yn gwella sut mae eu sefydliadau'n ymdrin â chwynion.

O'r Prif Swyddogion Gweithredol a ymatebodd i'n harolwg:


- cytunodd 64% fod ein gwaith safonau cwynion yn gwella eu harferion casglu data.
- cytunodd 84% fod y gwaith hwn yn gwella'r adrodd ar sut mae cwynion yn cael eu trin.

> Hoffwn ddiolch i staff OGCC am eu mewnbwn mewn perthynas â hyfforddiant. Archebodd y [sefydliad] dair sesiwn y llynedd ond dim ond un y gellid ei rhoi ar y pryd. Roedd ansawdd y sesiwn gychwynnol o'r fath fel y gallem gyflwyno'r ddwy sesiwn arall ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan swyddogion OGCC yn ystod eu sesiwn gyntaf. Diolch yn fawr.
>
> Ymatebydd awdurdod lleol

O'r Prif Swyddogion Gweithredol a ymatebodd i'n harolwg




cytunodd 64% fod ein gwaith safonau cwynion yn gwella eu harferion casglu data.





cytunodd 84% fod y gwaith hwn yn gwella'r adrodd ar sut mae cwynion yn cael eu trin.

Fodd bynnag, mae'n bwysicaf oll bod ein gwaith ar safonau cwynion yn arwain at welliannau i bobl Cymru.

Mae canlyniadau ein harolwg cenedlaethol yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar brofiad pobl sy'n cwyno wrth ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.  Rhwng 2020 a 2025, dangosodd ein hymchwil, er bod cyfran gynyddol o bobl Cymru wedi cyflwyno cwynion i gynghorau lleol, darparwyr gofal iechyd neu landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, fod cyfran gynyddol yn canfod bod y broses yn hawdd ac yn hapus gyda sut y cafodd eu cwyn ei datrys.

Fodd bynnag, yn 2026 roedd yn ymddangos bod lefelau boddhad â'r agweddau hyn ar brosesau cwyno wedi gostwng.  Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen parhaus i fonitro prosesau cwyno sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau allweddol i bobl Cymru yn agos, gyda chyfleoedd i wella yn cael eu nodi a'u cyfleu'n effeithiol.

Ffigur 16: Ymatebion i'n harolwg ymwybyddiaeth cenedlaethol - profiadau o gwyno i gynghorau lleol, darparwyr gofal iechyd neu landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru



# Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

## Rydym yn defnyddio ein pwerau i:

- **ymestyn ymchwiliad presennol i faterion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gŵyn gychwynnol.**
- **lansio ymchwiliad os oes gennym amheuaeth resymol y gallai fod camweinyddu systemig a methiannau gwasanaeth yn arwain at anghyfiawnder i unigolion, ac os ydym yn credu y byddai ymchwiliad o'r fath er budd y cyhoedd.**

## Ein gwaith yn 2025-26

Yn ystod 2025-26, gwnaethom gau 3 ymchwiliad a agorwyd yn y flwyddyn flaenorol gan ddefnyddio ein pwerau ar ei liwt ei hun. Rhoddwyd gorau i ddau o'r ymchwiliadau hyn yn dilyn ymchwiliad manwl, oherwydd dewisodd un achwynydd gymryd camau cyfreithiol, tra bod un ymchwiliad wedi arwain at adroddiad nad oedd o fudd i'r cyhoedd.

Yn gyfan gwbl, ers i ni gael y pwerau hyn yn 2019, rydym wedi defnyddio pwerau ar ei liwt ei hun mewn 20 o ymchwiliadau. Ystyriodd yr ymchwiliadau hyn amrywiaeth o faterion gan gynnwys methiannau difrifol posibl mewn gofal iechyd, asesiadau digartrefedd gan awdurdodau lleol ac asesiadau o anghenion ar gyfer gofalwyr di-dâl gan awdurdodau lleol .

Ym mis Mawrth 2026, roeddem yn cynnal 4 ymchwiliad pellach, gan ystyried:

- methiannau gofal iechyd posibl
- sut mae landlordiaid cymdeithasol yn delio â chwynion am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni.

Hyd yn hyn, gwnaethom gau 20 ymchwiliad ar ei liwt ei hun.

## Ein heffaith

Ymddiriedodd y Senedd y pŵer i ni ymchwilio ar ein liwt ein hunain, ac mae'n allweddol i ni fod y pŵer hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Cymru.

Fel y gwnawn ym mhob cwyn yr ydym yn ymyrryd ynddi, rydym wedi bod yn monitro'n weithredol sut mae sefydliadau wedi bod yn cydymffurfio â'r argymhellion o'n hymchwiliadau ar ei liwt ei hun.

### A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?  - adroddiad dilynol



Ym mis Mawrth 2026 cyhoeddom adroddiad dilynol ar gydymffurfiaeth ag argymhellion pedwar ymchwiliad ar wahân a oedd yn edrych ar asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru (a ddaeth i'w casgliad ym mis Hydref 2024).

Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd 4 awdurdod lleol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot – yn cynnal asesiadau o ofalwyr yn unol â'u rhwymedigaethau statudol.

Er i ni nodi rhai meysydd o arfer da, gwnaethom hefyd nifer o argymhellion gan gynnwys:

- gwella arferion cofnodi
- gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda gofalwyr
- cynnig hyfforddiant  i ail-atgoffa staff ar hawliau gofalwyr
- cydweithio'n well â'r sector gofal iechyd.

## A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? - adroddiad dilynol (yn parhau)

Mae ein hadroddiad dilynol yn esbonio ein bod wedi canfod fod pob un o'r 4 awdurdod a ymchwiliwyd iddynt wedi cymryd camau cadarnhaol ers yr ymchwiliad, er mai dim ond Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Castell-nedd Port Talbot oedd wedi gweithredu'n llawn yr holl argymhellion a wnaed. Gwnaethom argymhellion pellach i Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir y Fflint ac anogom y ddau awdurdod hyn i barhau i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r argymhellion sy'n weddill.

Gwnaethom hefyd groesawu sylwadau a data gan awdurdodau eraill ledled Cymru, mewn ymateb i'n hymchwiliad, gan ddangos effaith a dysgu ehangach. Fodd bynnag, mae'n parhau bod angen i bob awdurdod lleol yng Nghymru barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybod am eu hawliau a'u bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor neu gymorth priodol i'w galluogi i barhau yn eu rôl ofalu, os dymunant wneud hynny.

Mae'r adborth a gawn gan sefydliadau yn rhoi sicrwydd pellach i ni fod ein hymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn cael effaith gadarnhaol.

O'r swyddogion cwynion a ymatebodd i'n harolwg eleni, cytunodd 82% fod eu sefydliadau wedi cael eu dylanwadu'n gymedrol neu'n sylweddol gan ein hadroddiadau ymchwilio ar ein liwt ein hunain.

> Dangosodd gwaith "ar ei liwt ei hun" yr Ombwdsmon fylchau yn y ffordd rydym yn cofnodi gwybodaeth am ofalwyr ifanc. Mewn ymateb, rydym wedi gwella sut rydym yn cofnodi ac yn storio data ac wedi creu data llinell sylfaen mwy dibynadwy i helpu gyda chynllunio yn y dyfodol.
>
> \- Ymatebydd arolwg Prif Swyddog Gweithredol

# Rhannu ein canfyddiadau a'n mewnwelediadau

**Credwn ei bod yn bwysig iawn ein bod yn rhannu canfyddiadau a mewnwelediadau o'n gwaith achos mor eang â phosibl er mwyn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus.  Cyhoeddwn grynodebau o'n holl ymchwiliadau ar ein gwefan a rhannwn ein hadroddiadau er budd y cyhoedd gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.**


## Adroddiadau budd y cyhoedd

Pan fyddwn yn ymchwilio i gŵyn ac yn credu bod rhywbeth wedi mynd o'i le, fel arfer byddwn yn paratoi adroddiad sy'n egluro ein canfyddiadau.

Weithiau, byddwn yn penderfynu cyhoeddi adroddiad budd y cyhoedd. Byddwn yn gwneud hyn, er enghraifft, pan:

- mae gwersi ehangach o'n hymchwiliad i gyrff eraill
- roedd yr hyn a aeth o'i le yn arwyddocaol iawn
- efallai bod y broblem a ganfuom yn effeithio ar lawer o bobl, nid dim ond y sawl a gwynodd i ni
- roeddem wedi tynnu sylw'r corff at y broblem yn y gorffennol, ond ni roddodd y corff sylw iddi.

Pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd, rydym yn tynnu sylw ato yn y cyfryngau ac yn ei rannu â sefydliadau eraill a allai ddysgu o'n canfyddiadau neu sydd â diddordeb yn y pwnc.  Rhaid i'r corff cyhoeddus hefyd gyhoeddi cyhoeddiad yn y wasg am yr adroddiad.



Eleni, cyhoeddom **9** adroddiad budd y cyhoedd – o'i gymharu ag 8 y llynedd.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (202401728)

Cwynodd Ms A, a oedd yn cynrychioli saith teulu, fod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth epilepsi arbenigol priodol i oedolion ag anableddau dysgu ac wedi methu â sicrhau gofal parhaus addas ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben ym mis Mehefin 2021. Canfuom nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi adolygu cleifion yr effeithiwyd arnynt yn brydlon nac wedi rhoi cymorth amgen digonol ar waith. Bedair blynedd yn ddiweddarach, nid oedd llwybr gofal priodol na hygyrch o hyd i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion hwn (ewch i adroddiad llawn).

### Cyngor Caerdydd (202404828)

Cwynodd Ms C fod y Cyngor wedi methu â gweithredu ar adroddiadau hirdymor am ollyngiadau dŵr, lleithder a llwydni yn ei chartref, ac yna wedi gohirio atgyweiriadau a chymorth hyd yn oed ar ôl i'r eiddo gael ei ddatgan yn anaddas i bobl fyw ynddo ym mis Gorffennaf 2024. Gwnaethom ganfod methiannau gwasanaeth difrifol a pharhaus, gan gynnwys blynyddoedd o gyfleoedd a gollwyd i fynd i'r afael ag amodau peryglus a effeithiodd yn ddifrifol ar deulu Ms C wrth iddynt dreulio llawer o fisoedd yn byw mewn amodau anaddas (ewch i  adroddiad llawn).

### Cyngor Sir y Fflint (202401983)

Fe wnaethon ganfod bod y Cyngor wedi trin pob cais am atgyweirio cartref gan Miss Y ar wahân, gan golli cyfleoedd lluosog dros amser i nodi a datrys problemau a oedd yn bodoli eisoes. O ganlyniad, gadawyd Miss Y a'i phlant i fyw mewn amodau annerbyniol am bum mis ar ôl i'r Cyngor ddod yn ymwybodol o'r broblem lleithder (ewch i adroddiad llawn).

### Trivallis (202402960)

Darganfyddom nad oedd y Gymdeithas wedi ymateb yn briodol i adroddiadau am leithder a llwydni yng nghartref Mr B. Pan adroddodd Mr B am broblemau i'r Gymdeithas, ni chawsant eu trin yn unol â pholisïau a chanllawiau perthnasol. O ganlyniad, bu'n rhaid i Mr B fyw mewn cartref gyda gwaith atgyweirio heb ei wneud am bron i 7 mlynedd (ewch i adroddiad llawn).

### Trivallis (202405250)

Darganfyddom nad oedd y Gymdeithas wedi ymateb yn briodol bob amser i adroddiadau am leithder a llwydni. Ni weithredwyd bob amser yn brydlon nac yn unol â'r polisïau perthnasol ar adroddiadau am faterion yng nghartref Mrs C, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y Gymdeithas wedi ystyried anghenion plant anabl a oedd yn byw yng nghartref Mrs C wrth ymateb i adroddiadau am leithder a llwydni (ewch i adroddiad llawn).

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (202404388)

Darganfyddom er bod gofal canser y prostad Mr C wedi dilyn Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol GIG Cymru yn fras, fod oedi sylweddol, yn enwedig arhosiad o 4 mis am sgan PET PSMA, wedi golygu ei fod wedi aros fwy na 3 gwaith yn hirach na'r disgwyl am driniaeth, gan ganiatáu i'w ganser waethygu, yn ôl pob tebyg. Mae'r achos yn arbennig o bryderus o ystyried adroddiadau blaenorol o fethiannau tebyg, a gwaethygodd ymdriniaeth wael y Bwrdd Iechyd â'r gŵyn yr anghyfiawnder ymhellach (ewch i adroddiad llawn).

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe(202407678)

Darganfyddom fod cloc amser aros Mr W wedi'i ailosod yn anghywir ym mis Hydref 2023 heb gyfiawnhad clinigol na chyfathrebu, er nad oedd unrhyw dystiolaeth ei fod yn anaddas i gael llawdriniaeth. Achosodd y gwall hwn oedi sylweddol, lle profodd Mr W boen, llai o symudedd a rhwystredigaeth, ac yn y pen draw collodd y cyfle i fwrw ymlaen â llawdriniaeth. Mae'r achos yn destun pryder neilltuol o ystyried bod methiannau tebyg eisoes wedi'u nodi mewn adroddiadau budd y cyhoedd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024 (ewch i adroddiad llawn).

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (202403251)

Fe wnaethon ganfod nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'n briodol ar gyngor arbenigol ynghylch gofal Mrs B ac nad oedd wedi asesu'n ddigonol y risgiau a achoswyd iddi yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Pan gafodd ei hadolygu yn y pen draw, ni chynhaliwyd profion perthnasol, roedd cyfathrebu â'i meddyg teulu yn annigonol, a chollwyd cyfleoedd i gael atgyfeiriad a thriniaeth yn gynharach, ochr yn ochr â chanslo clinigau dro ar ôl tro. Cyfrannodd y methiannau sylweddol hyn at ddirywiad difrifol yng ngolwg Mrs B, gyda chanlyniadau dinistriol iddi hi a'i theulu (ewch i adroddiad llawn).

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (202400797)

Darganfyddom fod Mr B wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr aros am lawdriniaeth orthopedig, heb iddo gael gwybod am hynny. Canfuom hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chywiro'r sefyllfa am ymhell dros flwyddyn er i gwynion gael eu gwneud iddo (ewch i adroddiad llawn).

## Llythyrau blynyddol

Bob blwyddyn, rydym yn anfon llythyrau at fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ynghylch y cwynion a gawsom ac ystyriom yn ystod y flwyddyn.  Gwnawn hyn i helpu sefydliadau i wella eu dull o ymdrin â chwynion a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Rhaid i'r sefydliadau adrodd ar y wybodaeth hon drwy eu trefniadau llywodraethu mewnol a'i defnyddio i weld sut y gallant wella.

[Ewch i wybodaeth am y llythyrau blynyddol ar ein gwefan].

## Ymgysylltu â chyrff cyhoeddus

Mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff yn ein hawdurdodaeth a rhanddeiliaid eraill sy'n gweithredu yn y sectorau sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'n cwynion.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Ombwdsmon a'n uwch staff â chynrychiolwyr o sawl Bwrdd Iechyd, cyngor lleol a chymdeithas dai, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill: Arolygiaeth Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi, Archwilio Cymru, Comisiynwyr Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmyn Sector Cyhoeddus eraill ledled y DU ac Iwerddon, i rannu gwybodaeth a mewnwelediadau perthnasol.

Adnewyddom ein Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Chomisiynwyr Cymru.

## Polisi cyhoeddus

Rydym yn defnyddio ein harbenigedd a'r dystiolaeth o'n gwaith achos i gyfrannu at ddatblygu polisi cyhoeddus mewn meysydd fel iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i gyfrannu at yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ('Deddf 2019'), a lansiwyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd yn 2025. Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau'r adolygiad hwn, gyda'i adroddiad yn cadarnhau'r casgliad cyffredinol bod:

- Deddf 2019 yn darparu sail statudol effeithiol sy'n cefnogi ac yn galluogi ein gwaith.
- Deddf 2019 yn darparu templed arfer da ar gyfer rôl ombwdsmon yn rhyngwladol ac yn parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol effeithiol sy'n addas at y diben.

Rydym yn croesawu'r casgliadau hyn yn ogystal ag argymhellion y Pwyllgor ar sut y gallwn gryfhau ein proses a'n heffaith ymhellach. Rydym yn cynnwys mwy o fanylion am gefndir a chanfyddiadau’r adolygiad hwn yn ogystal â’n hymateb yn yr Atodiad. Ewch i'r Atodiad.

Yn ystod 2025-26, ymatebom i 6 ymgynghoriad cyhoeddus.

### Ymgynghoriad ar reoleiddio'r sector gorfodi dyledion (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)

Yn ein hymateb, tanlinellom fod llwybr cwynion statudol eisoes drwy gynghorau ac yna ein swyddfa ar gyfer asiantaethau gorfodi a gyflogir gan neu a gomisiynir gan gynghorau lleol yng Nghymru. Gwnaethom bwysleisio ein bod yn cefnogi rhoi’r Bwrdd Ymddygiad Gorfodi (ECB) ar sail statudol ar gyfer y sector ehangach ac yn croesawu pwerau rhannu data a monitro cymesur. Fodd bynnag, tanlinellom fod yn rhaid i unrhyw rôl statudol i'r ECB osgoi dyblygu, dryswch a theithiau cwyno hirach.

## Adolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Deisebau (Senedd Cymru: Pwyllgor Deisebau)

Fe wnaethon fynegu cefnogaeth gref i werth deisebau. Fe wnaethon nodi hefyd y byddem yn croesawu mwy o gyfleoedd i ddarparu tystiolaeth o'n gwaith achos a'n gwaith gwella ac awgrymom wella hygyrchedd a rheoli disgwyliadau drwy gyhoeddi gwybodaeth gliriach am amserlenni, faint o ddeisebau sy'n symud ymlaen, a pha mor aml y maent yn arwain at newid polisi.

## Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl (Senedd Cymru - y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Defnyddiom yr ymateb i dynnu sylw at y ffaith bod ein hymchwiliad ar ei liwt ei hun, A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?, wedi canfod lefelau isel iawn o asesiadau o anghenion gofalwyr a chynlluniau cymorth, ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth wael o hawliau gofalwyr, terminoleg anghyson, gwybodaeth aneglur, data cydraddoldeb gwan a chofnodion anghyson o'r cymorth a ddarparwyd. Pwysleisiom fod gwell mynediad at gymorth yn dibynnu ar wella'r weinyddiaeth o asesiadau gofalwyr, gwybodaeth gliriach i ofalwyr, hyfforddiant staff gwell, data cydraddoldeb cryfach, a chydweithio agosach rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd.

## Ymchwiliad i ddiffyg atgyweirio peryglus mewn tai cymdeithasol (Senedd Cymru, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai)

Fe wnaethon dynnu sylw at y ffaith ein bod yn gweld cynnydd yn nifer y cwynion am leithder a llwydni neu waith atgyweirio a chynnal a chadw; a bod y cwynion hyn yn denu cyfraddau cadarnhau uwch o'i gymharu â chwynion tai eraill rydym yn ymchwilio iddynt.

Cawsom hefyd ein gwahodd gan y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar lafar.

## Gosod amserlenni i landlordiaid tai cymdeithasol ymateb i adroddiadau o beryglon (Llywodraeth Cymru)

Fe wnaethon dynnu sylw at yr anghysondebau yn amseroedd ymateb presennol landlordiaid a welsom yn ein gwaith achos, a thanlinellu pwysigrwydd diffiniadau cliriach, ar draws y sector, a threfniadau mwy cadarn a thryloyw ar gyfer monitro perfformiad.

## Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Senedd Cymru, Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol)

Yn ein hymateb, siaradom am y nifer sy'n defnyddio ein gwasanaeth mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar hyn o bryd, a pha mor gyffredin yw'r problemau sy'n gysylltiedig â dehongli Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn ein gwaith achos.  Pwysleisiom y dylai'r Bil neu unrhyw ganllawiau cysylltiedig gynnig mwy o eglurder ynghylch y dewisiadau sydd ar gael i ddefnyddwyr BSL sy'n canfod nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig.

# Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol

# Ein pobl

**Rydym yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein staff. Rydym am barhau i gefnogi staff i ddatblygu'r gwybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd i barhau i gynnig gwasanaeth effeithlon a phroffesiynol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i greu gweithle iach, cydradd, amrywiol a chynhwysol. Rydym yn falch o sut y perfformiodd ein staff eleni ac mae ein ffocws yn parhau i fod ar gynnal iechyd a llesiant staff.**

## Hyfforddi a datblygu

Mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau 28 awr o hyfforddiant a datblygiad bob blwyddyn (pro rata ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser). Yn 2025-26, bodlonodd 91% o staff y targed hwn a oedd yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol (77%).

Drwy ein Proses Adolygu a Datblygu Perfformiad (PRDP), rydym yn sicrhau bod gan bob aelod o staff amcanion a blaenoriaethau clir ar gyfer y flwyddyn i ddod a'n bod yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd fel rhan o'r trafodaethau un-i-un ynghylch cynnydd, sy'n cael eu cynnal bob 4 i 6 wythnos. Gosodir amcanion a blaenoriaethau mwy uniongyrchol i staff newydd ac maent yn ymgymryd â Rhaglen Cynefino helaeth. Ar gyfer staff sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth neu salwch hirdymor, rydym yn trafod ac yn cytuno ar eu hamcanion pan fyddant yn dychwelyd. Eleni eto, cwblhaodd 100% o staff eu PRDP.

Yn ogystal, mae gan bob aelod o staff Gynllun Datblygu Unigol sy'n cael ei ddatblygu ar yr un pryd â'r PRDP. Mae'r cynllun yn nodi anghenion datblygu pob aelod o staff ac yn manylu ar sut mae unrhyw fylchau yn y perfformiad disgwyliedig a'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn cael eu datrys trwy ymyriadau datblygu.

Gwnaethom recriwtio 2 Swyddog Ymchwilio Graddedig arall yn llwyddiannus yn 2025. Dyma'r ail flwyddyn o recriwtio i'r cynllun Graddedig a oedd yn fenter newydd i'r swyddfa yn 2024.

# Iechyd a llesiant

Rydym am i'n staff fod yn iach. Gostyngodd canran gyfartalog y dyddiau gwaith a gollwyd oherwydd salwch staff o 2.3% i 0.77% eleni.

Collwyd cyfartaledd o 1.96 diwrnod fesul gweithiwr oherwydd salwch, o'i gymharu â 5.8 diwrnod yn 2024-25. Ein targed oedd cyfartaledd o 6 diwrnod y pen, ac rydym yn falch o weld bod y cyfartaledd ymhell islaw'r targed hwn, sy'n cynrychioli gwelliant sylweddol.

Rydym wedi parhau i gynnig cymorth i staff er mwyn diogelu eu llesiant, ac i wrando ar adborth staff ynghylch sut y gallwn eu cefnogi a gwella pethau ymhellach. Rydym yn gwneud hyn drwy adborth o'n harolwg staff a thrwy adborth a roddir mewn cyfarfodydd tîm. Mae ein dogfen Gweithio yn y Dyfodol yn OGCC yn nodi cyfrifoldebau pob aelod o staff a chyfrifoldebau penodol ar gyfer gwahanol lefelau. Yn ogystal, mae gennym Siarter Arweinyddiaeth ar waith sy'n cyfrannu at gryfhau ymhellach ddiwylliant sy'n diogelu llesiant yn y gweithle.

Byddwn yn parhau i wrando ac i gymryd camau i wella pethau ymhellach.

Gwnaethom barhau i gynnig cefnogaeth Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff, cefnogaeth drwy Fentoriaid Menopos a gwnaethom barhau i gynnig ein gwasanaethau cwnsela allanol. Mae ein Gweithgor Llesiant wedi parhau i gyflwyno amserlen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i staff. Mae hyn wedi cynnwys asesiadau iechyd gwirfoddol a gynhaliwyd ar y safle. Rydym wedi parhau i chwilio am ffyrdd o ddelio gyda gwaith yn fwy effeithlon ac wedi parhau i recriwtio staff rhagorol yn llwyddiannus, pan fydd swyddi gwag yn codi.



Ar gyfartaledd, dim ond **1.96** diwrnod a gollwyd fesul gweithiwr oherwydd salwch.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i ni – fel darparwr gwasanaeth ac fel cyflogwr.**

**Bob blwyddyn, rydym yn edrych ar ba mor dda y mae proffil ein staff ac ymgeiswyr am swyddi yn adlewyrchu poblogaeth Cymru.**

## Ein staff

Mae 78% o'n staff presennol yn dynodi eu hunain yn fenywod (o gymharu â 74% y llynedd).

Gwelsom gynnydd croesawgar yng nghyfran ein staff sydd o dan 25 oed – o 6% i 7% eleni. Fodd bynnag, mae'r grŵp hwn yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.

Roedd cyfran y bobl yn ein gweithlu a oedd yn uniaethu â chefndiroedd ethnig amrywiol yn 4%, sef cyfran ychydig yn is na'r llynedd (5%) ac yn is na chyfran genedlaethol y boblogaeth hon (6.2%, Llywodraeth Cymru).

Fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd 4% o'n staff yn dynodi eu hunain yn anabl. Mae hyn yn sylweddol is na chyfran y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru sydd, yn ôl Arolwg Poblogaeth Blynyddol Llywodraeth Cymru, yn economaidd weithgar ac yn anabl.

## Ymgeiswyr am swyddi

I ni adlewyrchu'r amrywiaeth mewn cymdeithas, ein nod yw denu mwy o ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

Yn gadarnhaol, yn 2025-26, o'r bobl a wnaeth gais i ymuno â ni*:

- Roedd 60% yn dynodi eu hunain yn fenywod, gyda'r grŵp hwn yn cyfrif am 67% o'r ymgeiswyr llwyddiannus.
- Nododd 8% eu bod yn dod o gefndiroedd ethnig amrywiol (yr un gyfran â'r llynedd), ac roedd y grŵp hwn wedi'i gynrychioli'n gryf ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus (17%).

* Mae gennym ddata cydraddoldeb dibynadwy ar gyfer 4 o'r 10 swydd a hysbysebwyd yn allanol y recriwtiwyd iddynt eleni.

- Er bod 7% wedi nodi mai'r Gymraeg oedd eu prif iaith (o'i gymharu â 13% y llynedd), dywedodd 19-20% fod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg rhugl neu gymharol dda. Ar ben hynny, roedd gan 33% o'r ymgeiswyr llwyddiannus sgiliau iaith Gymraeg rhugl neu gymharol dda.
- Roedd 5% o'n hymgeiswyr am swyddi, a 33% o'r ymgeiswyr llwyddiannus, o dan 25 oed.
- Yn gadarnhaol, nododd 5% o'r ymgeiswyr eu bod o genedligrwydd amrywiol a nododd 10% eu bod yn uniaethu â chyfeiriadau rhywiol amrywiol. Fodd bynnag, nid oedd cynrychiolaeth o'r grwpiau hyn ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Ar ben hynny,

- roedd 3% o'n hymgeiswyr am swyddi yn uniaethu â chrefyddau amrywiol, ond nid oedd unrhyw gynrychiolaeth o'r grŵp hwn ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus.
- roedd 11% o'r ymgeiswyr yn dynodi eu hunain yn anabl – cyfran uwch na'r llynedd (8%). Fodd bynnag, ni chynrychiolwyd y grŵp hwn ymhlith ymgeiswyr a gyrhaeddodd y rhestr fer nac ymgeiswyr llwyddiannus.

Er ein bod am ddenu ceisiadau gan ystod eang o gymunedau amrywiol, gwelwn tangynrychiolaeth o bobl anabl ymhlith ein gweithlu a'n hymgeiswyr am swyddi yn fater o bryder arbennig o frys. Byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r dan gynrychiolaeth hon o dan ein Cynllun Strategol newydd 2026-29.

## Sgiliau Cymraeg ein staff

O dan Safonau'r Gymraeg, bob blwyddyn rydym yn mesur sgiliau iaith Gymraeg ein gweithlu.

Yn 2025-26, dywedodd 12% o'n staff mai'r Gymraeg oedd eu prif iaith – yr un gyfran â'r llynedd.

Mae cyfran y bobl sy'n siarad y Gymraeg yn weddol dda neu'n rhugl hefyd wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- siarad: 30% (o gymharu â 28%)
- darllen: 28% (o gymharu â 27%)
- ysgrifennu: 25% (o gymharu â 26%)
- deall: 29% (o gymharu â 28%).

Gwnaethom gefnogi 2 cydweithiwr i ymgymryd â hyfforddiant y Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Yn 2025-26:

- roedd cyfartaledd ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2%
- nid oedd gennym canolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

I gymharu, mae'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn awgrymu, yn 2024, bod y cyfartaledd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU yn 6.9% a'r canolrif yn 4.4%.

Er ein bod yn falch o'r canlyniad hwn, rydym bob amser wedi bod yn glir, mewn sefydliad bach, y gall penodiadau unigol wneud gwahaniaeth sylweddol i gyfrifiadau'r bwlch cyflog.

Cymraeg

Mae sgiliau Cymraeg ein staff wedi gwella.



Nid oedd gennym ganolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## Arolwg staff

Cymerodd 68 allan o 79 o staff ran yn ein harolwg staff eleni, gyda chyfradd ymateb o 86%.

Mae canlyniadau'r staff yn parhau'n gadarnhaol, ac rydym wedi cynnal canlyniadau da mewn llawer o'r meysydd a archwiliwyd.  Un o'n dangosyddion perfformiad allweddol yw nifer y staff a fyddai'n dweud bod OGCC yn lle gwych i weithio.  Roeddem yn falch o weld bod 88% o staff wedi dweud bod OGCC yn lle gwych i weithio.  Yn ogystal, dywedodd 89% o'r staff eu bod yn falch o weithio i OGCC.

Isod, rydym yn cyflwyno sgoriau ffafriol cyfartalog ar draws cwestiynau o dan bob pennawd arolwg (lle cytunodd neu gytunodd yr ymatebydd yn gryf).

| Thema | 2023-24 sgôr ffafriol gyfartalog | 2024-25 sgôr ffafriol gyfartalog | 2025-26 sgôr ffafriol gyfartalog | Gwahaniaeth pwynt % i 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| Fy swydd | 74% | 78% | 80% | +2 |
| Cyfathrebu Mewnol ac Ymgysylltu | 69% | 83% | 75% | -8 |
| Trefniadau a chyfleusterau TG | 60% | 83% | 81% | -2 |
| Ein gwasanaeth | 74% | 77% | 78% | +1 |
| Fy rheolwr | 77% | 90% | 89% | -1 |
| Arweinyddiaeth | 62% | 79% | 77% | -2 |
| Dysgu a Datblygu | 69% | 81% | 77% | -4 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 76% | 87% | 83% | -4 |
| Cydbwysedd bywyd gwaith a llesiant | 68% | 81% | 81% | - |
| Canfyddiadau o OGCC | 82% | 92% | 91% | -1 |

# Cynaliadwyedd

Rydym yn deall bod angen i ni chwarae ein rhan i ddiogelu'r amgylchedd a pharhau i ddatblygu arferion gwaith cynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynhyrchu 4,717kg o wastraff, sy'n cynrychioli gostyngiad o 36% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn ganlyniad i flwyddyn 'normal', heb unrhyw waredu ar raddfa fawr o offer TG etifeddol. O'r gwastraff a gynhyrchwyd, cafodd 87% ei ailgylchu, sy'n dangos gwelliant ar berfformiad y llynedd. Gallwn adrodd na anfonwyd unrhyw wastraff i safle tirlenwi.

Mae presenoldeb yn y swyddfa yn parhau i fod yn hyblyg, gyda gweithio o'r cartref yn parhau i fod y lleoliad gwaith a ffefrir. O ganlyniad, mae ein defnydd o drydan wedi lleihau 23% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ein data allyriadau yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar ble mae staff yn gweithio (swyddfa/cartref), milltiroedd cymudo a theithio busnes arall. Er bod allyriadau teithio busnes wedi cynyddu o 237%, cafodd hyn ei wrthbwyso gan lai o ddefnydd ynni yn y swyddfa (gan gynnwys goleuadau a gwresogi), yn ogystal â pharhau i weithio gartref a llai o deithio i'r gwaith.

Eleni, cyflawnwyd gostyngiad o 4% yn ein cyfanswm allyriadau. Cyfanswm yr allyriadau ar gyfer y flwyddyn oedd 56,212.49 kg $CO_2$e sydd 6% yn is na'n ffigur targed o 60,000kg.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad ar ein cynaliadwyedd o dan y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd adran 6). Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am sut y gwnaethom reoli gwastraff, defnyddio trydan a chyfrifo allyriadau.




Cyflawnom ostyngiad o **4%** yn ein cyfanswm allyriadau $CO_2$.

# Rheolaeth Ariannol


Mae gwariant cyffredinol o ran adnoddau ac arian parod wedi cynyddu o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i OGCC gan Gronfa Gyfunol Cymru i ariannu dyfarniadau cyflog, chwyddiant a rhywfaint o fuddsoddiad yn ein blaenoriaethau strategol.

| **Alldro Adnoddau** | **2025/26** | **2024/25** | **Newid** |
|---|---:|---:|---:|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyfanswm Adnoddau | 6,330 | 6,089 | +241 |
| Gofyniad Arian Parod | 6,406 | 6,211 | +195 |

## Gwariant Adnoddau Gros 2025/26



## Dadansoddiad o wariant yn ôl Nodau Strategol




Nod 1: Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus

Nod 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant

Nod 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol


Nod 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol

## Costau Gwaith Achos

Fel yr amlinellwyd mewn Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol blaenorol, rydym yn cyflwyno costau cyfartalog fel wedi'u cyfrifo ar gyfer ein prif weithgaredd, sef derbyn, ystyried, ymchwilio ac ymateb i ymholiadau a chwynion.  Dyma ein gweithgarwch o dan Nod Strategol 1, a byddwn yn defnyddio'r ffigyrau dadansoddi ar gyfer Costau Gweithredu yn ôl Amcanion Strategol, a gyflwynir yn y cyfrifon archwiliedig hyn.


Mae'r graffiau isod yn dangos cost fesul achos yn gyntaf ar gyfer y gwaith ymholi a chwynion llawn a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn ail ar gyfer achosion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

### Cost fesul achos ar gyfer Cyfanswm Gwaith Achos (Ymholiadau a Chwynion) a Gaewyd




| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cau | 5,389 | 5,724 | 6,046 | 6,874 | 6,962 | 7,188 | 7,224 | 5,706 | 7,983 | 8,475 | 9,944 | 9,671 | 10,572 |
| Cost fesul cyfanswm cau | £817 | £793 | £796 | £670 | £674 | £636 | £703 | £931 | £607 | £521 | £459 | £475 | £440 |

## Cost fesul achos ar gyfer Cyfanswm y Cwynion a Gaewyd




| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cau | 2,155 | 2,254 | 2,315 | 2,362 | 2,101 | 2,561 | 2,517 | 1,935 | 2,865 | 3,138 | 3,331 | 3,485 | 4,496 |
| Cost uned | £2,044 | £2,014 | £2,080 | £1,949 | £2,232 | £1,784 | £2,018 | £2,747 | £1,692 | £1,407 | £1,370 | £1,318 | £1,034 |

Nodyn: Mae'r graffiau hyn wedi'u seilio ar wariant ar y Nod Strategol hwn, ac wedi'u haddasu i brisiau 2025/26. Nid yw'r ffigurau a adroddwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol yn uniongyrchol gymaradwy oherwydd y dull hwn.

## Pwerau Gwella Systemig (Pwerau Rhagweithiol)

Rydym yn nodi gwariant sy'n ymwneud â'n harferiad o'r pwerau ychwanegol a roddwyd i'r Ombwdsmon o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, ac ar gyfer 2025/26, mae hyn fel yr adroddir isod.

| Deddf 2019 OGCC: Gwariant yn 2025/26 | £000s |
|---|---|
| Costau staff | 351 |
| Cyfathrebu | 21 |
| Eiddo | 12 |
| Ffioedd proffesiynol | 1 |
| Hyfforddi a Recriwtio | 2 |
| Gwasanaethau Cyfrifiadurol | 14 |
| **Cyfanswm** | **401** |
| Cyllideb | 450 |
| **Amrywiant** | **49** |

Mae tanwariant eleni yn uwch nag arfer, oherwydd trosiant staff yn ein Tîm Awdurdod Safonau Cwynion yn chwarter olaf y flwyddyn.  Rydym wedi gweithio i lenwi'r swyddi gwag hynny yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2026/27.

## Gwariant hyd at 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

| | 2025/26 | 2024/25 | Rhesymau dros newidiadau sylweddol |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | |
| Cyflogau | 3,588 | 3,444 | Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 3.2 %. |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 477 | 355 | Buddsoddi mewn staff dros dro ychwanegol i ymdopi â phwysau yn gysylltiedig â gwaith achos. |
| Costau pensiwn | 990 | 946 | |
| Ffioedd y gronfa bensiwn | (32) | 49 | Bu farw un pensiynwr yn 2025/26. |
| **Cyfanswm** | **5,023** | **4,794** | |
| Rhent | 25 | 35 | |
| Ffi Archwilio Allanol | 23 | 22 | |
| Ffioedd proffesiynol a chyfreithiol | 236 | 259 | Llai o gyngor cyfreithiol allanol yn 2025/26. |
| Costau eiddo eraill | 150 | 188 | Rhyddhau darpariaeth dadfeiliadau yn 2024/25. |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 438 | 405 | Buddsoddiad mewn system rheoli achosion yn 2025/26. |
| Costau swyddfa | 118 | 89 | Cyfarfodydd ac ymgysylltiad ychwanegol ar gyfer holl staff yn 2025/26. |
| Teithio a Chynhaliaeth | 26 | 19 | Cynnydd o ran teithio i gyfarfodydd yr holl staff yn 2025/26. |
| Hyfforddi a Recriwtio | 70 | 120 | Cynnydd yng nghostau recriwtio yn 2024/25. |
| Cyfathrebu | 99 | 77 | Cynnydd o ran gwaith ymgysylltu yn 2025/26. |
| Dibrisiant | 133 | 151 | |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddol Eraill** | **1,318** | **1,365** | |
| **Costau Gros** | **6,341** | **6,159** | |
| Incwm | (11) | (70) | Diwedd secondiad staff i Gymdeithas yr Ombwdsmon. |
| **Gwariant Net** | **6,330** | **6,089** | |
| Cyfalaf | - | - | |
| **Adnoddau Net** | **6,330** | **6,089** | |

Mae gwybodaeth fanylach yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau sy'n atodiad i'r cyfrifon.

## Michelle Morris

**Swyddog Cyfrifyddu**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 21 Gorffennaf 2026

# Adroddiad Atebolrwydd 2025/26

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad yr Ombwdsmon:

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyllidir y Swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian na chawsant eu gwario i'r Gronfa hon bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o'r cyfrifon gael ei osod gerbron Senedd. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac ar sail adnoddau. Mae cyflog deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r costau cysylltiedig, yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu gweinyddu drwy'r Senedd.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd y Swyddfa yn cynnwys 79 o staff parhaol llawn a rhan-amser yn seiliedig ym Mhencoed, Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys yr Ombwdsmon, Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwaith Achos a Chyfreithiol, yn ogystal â staff ymchwilio a chymorth.

Darparodd Senedd Cymru £6.4 miliwn o arian parod ar gyfer cyllido'r Swyddfa. Bydd £20k o'r cyllid cyffredinol hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru, sef y balans arian parod heb ei ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn. Cadwyd gwariant y Swyddfa o fewn yr Amcangyfrif y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2024 a'i ddiwygio gan Gyllidebau Atodol yn ystod 2025/26.

Mae ein costau fesul uned wedi gostwng i'w lefelau isaf ac maent yn adlewyrchu'r nifer fwyaf erioed o gwynion ac ymholiadau a gaewyd gan y Swyddfa, tra bod ein costau'n sylweddol is o'u haddasu ar gyfer chwyddiant CPI.

## Taliadau a Rhwymedigaethau Pensiwn

Ceir manylion costau cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r Swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datgeliadau Pensiynau.

## Llywodraethu Corfforaethol

Mae deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Gorfforaeth Unigol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynorthwyo'r Ombwdsmon drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd a llywodraethu, rheoli risgiau, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Mae manylion pellach i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cofrestr Buddiannau

Mae cofrestr buddiannau yn cael ei chadw ar gyfer pob aelod o staff, ac mae'r datgeliadau ar gyfer yr Ombwdsmon, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau'r Panel Ymgynghorol, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Cyfarwyddyd Cyfrifyddu

O dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i'r Ombwdsmon ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu yn yr argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a oedd mewn grym yn 2025/26.

Paratowyd y cyfrifon er mwyn:

- Rhoi darlun teg a chywir o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2026, ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny.
- Datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd neu drafodion o bwys nad oeddynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Archwilwyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol OGCC fel y nodwyd ym mharagraff 18 o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Cost yr archwiliad ar gyfer 2025/26 oedd £23k (2024/25 = £22k).

Hyd y gwn, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio.

Michelle Morris

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 21 Gorffennaf 2026

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn nodi'r adnoddau a brynwyd, a oedd yn cael eu dal neu y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r defnydd o adnoddau gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa OGCC a'i alldro adnoddau net, Datganiad Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gydymffurfio â gofynion 'Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth' ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Dweud a yw'r safonau cyfrifo perthnasol fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
- Cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Swyddfa fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Ombwdsmon yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26

## Statws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y nodwyd yn Atodlen 1, paragraff 2 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Unigol sy'n dal y Swydd dan Ei Fawrhydi. Mae'r Ombwdsmon yn cyflawni ei ddyletswyddau a nodir mewn deddfwriaeth ar ran y Goron. Mae Atodlen 1, paragraff 19 yn datgan mai'r Ombwdsmon yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Ombwdsmon.

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Wrth gyflawni fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi sicrhau bod y swyddfa'n gweithio'n effeithiol ac i safon uchel o ran uniondeb. Yn ogystal, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan hefyd ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a nodwyd yn "Rheoli Arian Cyhoeddus".

Mae swyddfa'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Senedd, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyllid am y defnydd o adnoddau a ddarperir. Wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r swyddfa, ystyrir y cynigion ar gyfer cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd yn unol â'r broses a nodir yn y Ddeddf. Paratoir Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfun i'w rhoi gerbron y Pwyllgor Cyllid.

Disgwylir i mi gynnwys y datganiad hwn gyda fy adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i egluro sut yr eir ati i lywodraethu fy Swyddfa ac i sicrhau bod hynny yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol a'r Llyfr Oren: Rheoli Risg. Er mwyn gallu bodloni'r gofynion hyn, rwyf wedi cynnal strwythurau, systemau a gweithdrefnau priodol sy'n gynhwysfawr ac sy'n rhoi tystiolaeth i mi fod y trefniadau llywodraethu'n gweithio fel y'u bwriadwyd ar draws y sefydliad cyfan a'i weithgareddau. Mae trefniadau o'r fath yn cynnwys fy Fframwaith Llywodraethu, rheolaeth fewnol gynhwysfawr, trefniadau archwilio mewnol ac allanol effeithiol a gweithdrefnau rheolaeth ariannol cadarn, cynllunio risg a monitro. Bydd y meysydd hyn yn cael eu trafod yng ngweddill yr adroddiad hwn.

## Cynllunio Strategol a Monitro Perfformiad

Yn fy Nghynllun Strategol, a lansiwyd ym mis Ebrill 2023, ar gyfer y tair blynedd 2023/24 i 2025/26, nodais y canlynol:

### Ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:

Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith, mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella, mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad; ac mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn llais dylanwadol ac uchel ei barch o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

## Ein Hamcanion Strategol:

- **Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus:** Rydym yn cyflawni gwasanaeth effeithlon, empathig a chymesur sy'n cefnogi cyfiawnder ac sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus.

- **Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant:** Mae pobl ledled Cymru yn ymwybodol o'n swyddfa, yn deall sut y gallwn eu helpu ac mae ein gwasanaeth yn berthnasol ac yn hygyrch.

- **Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol:** Rydym yn cyfrannu at welliant mewn gwasanaethau cyhoeddus, trwy waith safonau cwynion, dysgu ehangach o gwynion ac ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymhlith cynghorwyr.

- **Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol:** Rydym yn cynnal ac yn gwella defnydd effeithlon ac effeithiol o'n hadnoddau ariannol, staff, a TG, ac yn sicrhau llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder da.

Er mai gwaith y timau unigol yn y swyddfa yw rhoi'r camau a nodwyd ar waith, mae'r Tîm Rheoli'n monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau a'r canlyniadau a sicrhawyd.

## System Rheolaeth Fewnol

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i llunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.

Mae'r system wedi bod mewn grym gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Ni chanfuwyd gwendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol yn sgil gwaith archwilio ac mae camau i wella rheolaeth ymhellach yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon gan y Tîm Rheoli ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol: Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC). Dyma gyfrifoldebau'r Pwyllgor:

### a) Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yn fy nghynorthwyo drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Rôl craffu a chynghori sydd gan y Pwyllgor ac nid oes ganddo rôl na chylch gwaith mewn perthynas â phenderfyniadau gweithredol neu waith achos a wneir gan OGCC.

### b) Aelodaeth

Mae'r aelodaeth yn cynnwys o leiaf bedwar, ac uchafswm o wyth, aelod allanol annibynnol.

Roedd y canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor yn 2025/26:

- Mike Usher – Cadeirydd
- Dave Tosh OBE – Is-gadeirydd
- John McSherry
- Jane Martin CBE (daeth cyfnod yn y swydd i ben ym mis Gorffennaf 2025)
- Laura Davies
- Jayne Woods
- Nia Roberts (o fis Gorffennaf 2025)

Ceir rhagor o fanylion am ein haelodau annibynnol ar ein gwefan.

### c) Hyfforddiant

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol. Darperir rhaglen gynefino ar gyfer pob aelod newydd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### (d) Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn llunio ei raglen waith flynyddol ei hun. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Rwy'n mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Adnoddau Corfforaethol yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor. Hefyd yn bresennol yn rheolaidd mae archwilwyr mewnol ac allanol ac aelodau priodol o Dîm Rheoli'r Ombwdsmon.

Ym mhob cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor nifer o eitemau agenda sefydlog gan gynnwys rheoli cyllideb, rheoli risg a datganiadau o unrhyw dwyll neu golledion a adnabuwyd, gan gynnwys unrhyw golledion data.

O ran rheoli cyllideb, ym mhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gopi o’r adroddiad Monitro’r Gyllideb a ystyriwyd gan y Tîm Rheoli. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i’r Pwyllgor bod craffu ar sefyllfa ariannol yn digwydd yn rheolaidd yn y Swyddfa.

O ran rheoli risg, ym mhob cyfarfod bu'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risg lawn, gan gynnwys adroddiad ynglŷn â’r risgiau mwyaf a nodwyd. Aeth y Pwyllgor ati i archwilio a herio’r risgiau a adroddwyd i fodloni ei hun bod risgiau allweddol wedi’u nodi. Yn ogystal, bob yn ail gyfarfod, mae’r Pwyllgor yn cynnal adolygiad manwl o risg benodol sydd wedi’i dewis o’r gofrestr risg.

Yn ystod y flwyddyn hefyd cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar nifer o faterion priodol eraill sy’n dod o fewn ei Gylch Gorchwyl. Roedd hyn yn cynnwys:

- y cyfrifon 9 a 12 mis
- cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol
- adolygiad o'r Polisi Chwythu’r Chwiban
- diweddariadau ar ddatblygiadau TG mawr
- materion perthnasol o ran cyllid a llywodraethu corfforaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor risgiau seiberddiogelwch a chraffodd ar y trefniadau sydd ar waith i gynnal seiberddiogelwch. Bu’r Pwyllgor hefyd yn adolygu trefniadau a pholisïau atal twyll a gwrth-lygredd y Swyddfa, yng nghyd-destun Fframwaith Atal Twyll Swyddfa’r Cabinet.

Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i mi i sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 yn cynnwys gwybodaeth briodol a'i fod yn cydymffurfio ag arferion gorau.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod annibynnol ac mae'n cynnwys Cadeirydd y Panel Ymgynghorol. Roedd nifer y cyfarfodydd a fynychwyd, ynghyd â nifer y cyfarfodydd yr oedd gofyn i bob aelod ei fynychu, fel a ganlyn:

| Aelod o'r Pwyllgor | Uchafswm nifer y presenoldebau posibl | Gwir nifer y presenoldebau | % mynychwyd |
|---|---|---|---|
| Mike Usher (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100 |
| Dave Tosh OBE (Is-gadeirydd) | 4 | 4 | 100 |
| John McSherry | 4 | 3 | 75 |
| Jane Martin CBE | 2 | 2 | 100 |
| Laura Davies | 4 | 4 | 100 |
| Jayne Woods | 4 | 4 | 100 |
| Nia Roberts | 3 | 3 | 100 |

## e) Archwilio Mewnol ac Allanol

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Cynlluniwyd y gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar sail asesiad cyffredinol o'u hanghenion ac a gyflawnwyd drwy eu rhaglen flynyddol y cytunwyd arni, gan gynnwys adolygiad o'n Gofrestr Risg. Roedd ei adroddiadau yn nodi'r fframwaith rheolaeth fewnol boddhaol yn y sefydliad a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen.

Roedd yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn 2025/26 a'r asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

| | Lefel sicrwydd |
|---|---|
| Diogelwch Gwybodaeth (GDPR) gan gynnwys rheoli cofnodion | **SYLWEDDOL** |
| Ymdrin â Chwynion – Cydymffurfiaeth | **SYLWEDDOL** |
| Rheoli Perfformiad Staff | **SYLWEDDOL** |
| Rheoli Risg – Rheolaethau Lliniaru | **SYLWEDDOL** |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | **SYLWEDDOL** |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol (y Gyflogres, y Cyfriflyfr Cyffredinol ac Asedau Sefydlog) | **RHESYMOL** |

Ym mhob archwiliad ond un, ystyriwyd bod y lefel sicrwydd cyffredinol yn 'Sylweddol', gyda'r lefel sicrwydd uchaf, sy'n golygu bod system gadarn o reolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod amcanion proses yn cael eu cyflawni.  Gwnaethpwyd nifer o argymhellion ac mae'r rhain naill ai wedi'u cwblhau neu byddant yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

Roedd y lefel is o sicrwydd ar y Rheolaethau Ariannol Allweddol yn ganlyniad i nifer o faterion mân yn gysylltiedig â chadw cofnodion, yn hytrach nag unrhyw faterion gweithredol penodol a gynyddodd ein lefel o risg.  Gwnaeth yr adroddiad 5 argymhelliad, ac roedd pob un ohonynt wedi'u gweithredu erbyn 31 Mawrth 2026.

Yn ogystal, cynhaliwyd archwiliad o argymhellion blaenorol yr archwilio mewnol. Canfu fod yr holl argymhellion blaenorol wedi'u gweithredu. Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2025/26: '*Mae TIAA yn fodlon fod gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.*'  Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn lleihau pa mor agored i risg yw'r swyddfa.

Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.

Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25 a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu ynghyd ag Adroddiad Archwiliad Allanol o Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli.  Rhoddwyd barn ddiamod gan Archwilio Cymru ar Gyfrifon 2024/25.  Roedd un argymhelliad yn dilyn yr archwiliad allanol, ac fe'i gweithredwyd erbyn 31 Mawrth 2026.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor.   Bodlonodd y Pwyllgor ei hun, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, fod y ddau archwilydd yn cydlynu'n effeithiol â'i gilydd.  Mae ansawdd y gwaith archwilio wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a'r ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.  Ystyriwyd bod ansawdd y gwaith yn foddhaol.

Cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol.  Yn ogystal, i sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol.

## (f) Prosesau monitro

Ym mhob cyfarfod yn ystod 2025/26, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael neu am gael eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt.

## (g) Adolygiad ac Asesiad Blynyddol

Cynhelir yr adolygiad blynyddol hwn er mwyn gwerthuso gwaith y Pwyllgor a sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arfer Da sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM.

I helpu'r Pwyllgor benderfynu a oedd yn cydymffurfio ag arferion da, gwahoddwyd pob aelod i lenwi 'Rhestr Wirio Hunanasesiad Pwyllgorau Archwilio' Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cafodd sylwadau gan aelodau o'r Pwyllgor eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26.

Casgliad Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oedd ei fod wedi cael gwybodaeth a sicrwydd cynhwysfawr a oedd yn ddibynadwy ac yn ddigon iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Roedd y sicrwydd hwn yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol.

Felly, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd y byddai'n fy nghynorthwyo i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Rhoddodd y Pwyllgor dystiolaeth a fyddai'n helpu gyda'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

## Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol: Y Panel Ymgynghorol

Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol a'i brif rôl yw fy nghynorthwyo a fy nghynghori'r wrth arwain a phennu amcanion strategol Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Hefyd, mae'r Panel yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion. Roedd gwaith y Panel yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhoi cyngor ar gynydd ein Cynllun Strategol newydd a'r Amcangyfrif ar gyfer 2026/27, adolygu perfformiad y sefydliad ac asesu effaith pwerau rhagweithiol yr Ombwdsmon.

Gan fod tymor Jane Martin yn ei swydd fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a Chadeirydd y Panel Ymgynghorol wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2025, penodwyd Dave Tosh yn Aelod Annibynnol ychwanegol o'r Panel Ymgynghorol o fis Hydref 2025 ymlaen. Penodwyd Nia Roberts i gymryd yr awenau fel Cadeirydd, a dechreuodd yn y rôl ym mis Hydref 2025.

Hefyd yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd Bernie Davies, aelod annibynnol o'r Panel Ymgynghorol, o'i swydd yn dilyn cyfarfod mis Hydref 2025. Byddwn yn recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Panel Ymgynghorol yn ystod 2026/27.

Rôl cynghori sydd gan y Panel Ymgynghorol ac nid oes ganddo rôl na chylch gwaith mewn perthynas â phenderfyniadau gweithredol neu waith achos a wneir gan OGCC.

## Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau sy'n Ymwneud â Data Personol

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pan fydd OGCC ar fai, Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn cael eu hystyried i sefydlu a oes angen adrodd y digwyddiad i'r swyddfa honno. Yn 2025/26, ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau eu hadrodd i'r ICO.

## Y Fframwaith Risg a Rheoli

Yn unol â “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru” rwyf yn cael fy nghynorthwyo gan Gyfrifydd Ariannol proffesiynol a chymwysedig sy’n ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen honno.

Mae rheoli risg a'r gofrestr risgiau yn eitemau sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a chaiff y Polisi Rheoli Risg ei adolygu'n rheolaidd.

Rwyf yn parhau i wella’r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y swyddfa’n gallu canfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol.

Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, cefais fy nghefnogi gan Gyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol y dirprwywyd rhai o fy nghyfrifoldebau iddo. Ers mis Mawrth 2025, penodwyd Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol Dros Dro i ymgymryd â’r swydd hon nes i’r swydd barhaol gael ei llenwi o fis Awst 2025 ymlaen.

Rwy’n fodlon bod y systemau sydd ar waith yn nodi risgiau posibl yn gynnar ac yn caniatáu imi gymryd camau priodol, trwy reolaeth weithredol, i leihau unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar y risgiau sy'n ymwneud â'r swyddfa, yn archwilio dull y swyddfa o reoli'r risgiau hynny ac yn darparu sylwadau ac awgrymiadau ar risgiau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae risgiau'n cael eu hystyried ar draws nifer o feysydd allweddol neu themau risg.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwaith achos
- Staffio
- Technoleg
- Ariannol
- Risg i enw da
- Llywodraethu a Chyfreithiol
- Rheoli Data a Gwybodaeth

## Risgiau a materion allweddol

Tynnodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwethaf (2024/25) sylw at risg goch yn ymwneud â'n gallu yn y dyfodol i barhau i wella darpariaeth gwasanaethau. Roedd y cynnydd parhaus yn y llwyth gwaith yn golygu bod perygl mai dim ond mewn cyfran o'n hachosion y byddem yn gallu ymyrryd yn gadarnhaol.

Er gwaethaf blwyddyn arall o gynnydd mewn cwynion, rydym wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion sydd ar agor gennym.  Rydym wedi cymhwyso ein profion cymesuredd a budd y cyhoedd yn gyson i sicrhau ein bod yn dyrannu ein hadnoddau i'r achosion cywir; mae hyn yn ein helpu i reoli'r nifer mawr o achosion a sicrhau bod ymchwiliadau manwl yn canolbwyntio ar y materion priodol.

Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau adnoddau ychwanegol gan y Senedd ar gyfer 2026/27, sy'n golygu y byddwn yn gallu 'ailosod' ein trefniadau staffio a'n dull o ymdrin â gwaith achos er mwyn ymateb i ofynion y dyfodol.  Fodd bynnag, nes bod y gwaith hwn wedi'i wneud, mae hyn yn parhau i fod yn risg uchel i OGCC.

Ar 31 Mawrth 2026, nododd y Gofrestr Risg y risg uchel ganlynol:

| Thema'r risg | Risg/mater ac effaith: | Rheoli a lliniaru'r risg/mater: | Risgiau sy'n anodd cael gwared arnynt: |
|---|---|---|---|
| **Gwaith achos** | Os byddwn yn parhau i reoli ein llwyth achosion cynyddol drwy godi'r bar ar gyfer achosion sy'n addas i'w datrys neu sy'n cael eu derbyn ar gyfer ymchwiliad manwl, yna byddwn mewn perygl o ond allu ymyrryd yn gadarnhaol mewn cyfran fach o'n llwyth achosion, gydag adnoddau gwaith achosion yn cael eu neilltuo i gau achosion ar yr ystyriaeth gychwynnol.<br><br>Roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 yn well nag ar 31 Mawrth 2025, gyda gostyngiad yn nifer yr achosion oedd ar agor gennym, a chynnydd yn nifer yr achosion y gallem ymyrryd ynddynt. | Fel rhan o'n Hamcangyfrif Cyllideb, nodwn y rhesymau pam y mae angen i 2026/27 fod yn flwyddyn o 'newid' i OGCC. Gwnaethom ofyn am fuddsoddiad mwy sylweddol i ddarparu adnoddau ychwanegol hanfodol, er mwyn ein helpu i ymdopi â'r llwyth gwaith presennol ac i baratoi'r sefydliad ar gyfer yr heriau o ran llwyth gwaith yn y dyfodol y mae ein data'n dangos y gallwn ddisgwyl eu hwynebu.<br><br>Wrth i ni dderbyn cyllid ychwanegol o 1 Ebrill 2026 ymlaen, gallwn weithredu ein strwythur staffio newydd, sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd a swyddi ychwanegol i ymdrin â gwaith achos. | Rydym yn cymhwyso ein profion cymesuredd a budd y cyhoedd yn gyson i sicrhau ein bod yn neilltuo ein hadnoddau i'r achosion cywir, sy'n ein helpu i reoli'r nifer mawr o achosion a sicrhau bod ymchwiliadau manwl wedi'u canolbwyntio'n briodol.<br><br>Fodd bynnag, nes y gallwn fuddsoddi ein hadnoddau ychwanegol a gweithredu'r strwythur newydd i wella'r sefyllfa ymhellach, mae'r risg yn parhau i fod yn **GOCH**. |

# Trefniadau Fframwaith Sicrhau Risg

## Fframwaith OGCC

- **Amcanion Strategol o Gynllun Corfforaethol**
- **Rhaglen Waith**
- **Rheoli risg**
- **Polisi atal twyll**
- **Fframwaith llywodraethu**
- **Polisïau, gweithdrefnau a chod ymddygiad**

| **Y Panel Ymgynghorol** | **Swyddog Cyfrifyddu** | **Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** | **Tîm Rheoli** |
|---|---|---|---|
| Yn darparu cefnogaeth a chyngor ar weledigaeth, gwerthoedd a dibenion ynghyd â chyfeiriad a chynllunio strategol. | Llywodraethu.<br>Gwneud penderfyniadau.<br>Rheolaeth ariannol.<br>Rheoli risg. | Adolygu a monitor systemau llywodraethu, risgiau a rheolaethau mewnol.<br>Cytuno ar y datganiad llywodraethu. | Cynllun Strategol 3 blynedd.<br>Cynllun Busnes.<br>Monitro perfformiad.<br>Polisïau corfforaethol.<br>Rheoli risg.<br>Gwerth am arian. |

| **Arweiniad Canolog** | | |
|---|---|---|
| **Trysorlys EM.**<br>**FReM.**<br>**Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.**<br>**Safonau Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus.** | **Polisïau, cynlluniau a chofrestr risg OGCC** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |

## Cydrannau Map Sicrwydd

| **Haen amddiffyn 1af** | **2il Haen amddiffyn** | **3ydd Haen amddiffyn** |
|---|---|---|
| Adrodd ar gyflawni strategol a gweithredol.<br>Adrodd KPI.<br>Rheolyddion ariannol/monitro cyllidebau. | Adolygu cofrestr risg.<br>Sicrhau ansawdd.<br>Sicrhau diogelwch gwybodaeth. | Adroddiadau archwilio mewnol.<br>Hapwiriadau gan y Rheolwr Cyllid. |

| **Sicrwydd Arall** |
|---|
| Archwilio allanol.<br>Craffu gan y Pwyllgor Cyllid. |

Byddaf fi a'm Tîm Rheoli yn parhau i weithio i reoli a lleihau'r holl risgiau allweddol yn unol â'n hasesiad o risg, a bydd y risgiau yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Y Broses Gyllidebu

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod gennyf drefniadau ar waith sy'n cadw rheolaeth dynn ar yr arian cyhoeddus sydd yn fy ngofal. Mae'r Tîm Rheoli yn cael adroddiad monitro cyllideb bob mis sy'n nodi gwir wariant o'i gymharu â'r gwariant a glustnodwyd yn y gyllideb. Ystyrir unrhyw faterion gwariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn er mwyn gallu cymryd camau priodol i gadw o fewn y gwariant a gyllidebwyd lle bo hynny'n bosibl, neu i chwilio am adnoddau ychwanegol lle na ellir delio â phwysau o ran costau.

Wrth lunio amcangyfrif ariannol OGCC ar gyfer 2026/27, cafodd papur yn nodi meini prawf cychwynnol ar gyfer y gyllideb ei drafod gan y Panel Ymgynghorol ym mis Gorffennaf 2025. Yn gyffredinol, roedd y cyflwyniad yn gofyn am gynnydd o 5.4% i adlewyrchu codiadau cyflog a phrisiau a buddsoddiad yn ein blaenoriaethau strategol. Yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref, cefnogodd y Pwyllgor y cyflwyniad, a chafodd hwn ei gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Blynyddol Llywodraeth Cymru a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Ionawr 2026.

## Casgliad

Rwy'n fodlon nad oedd gwendidau o bwys yn system rheolaeth fewnol y swyddfa yn 2025/26 a fyddai wedi effeithio ar allu'r swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion a bod trefn Lywodraethu Gorfforaethol gadarn ar waith heb unrhyw enghreifftiau o dorri'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Michelle Morris

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 21 Gorffennaf 2026

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff fy nhaliadau cydnabyddiaeth a'm costau yswiriant gwladol a phensiwn cysylltiedig eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, yn hytrach na'u talu'n uniongyrchol. Er tryloywder, caiff y costau hyn eu cynnwys yn yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth.

## Taliad Cydnabyddiaeth

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion tâl cydnabyddiaeth a llog pensiwn uwch reolwyr y Swyddfa: Michelle Morris – yr Ombwdsmon, Simon Hart – Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro - Adnoddau Corfforaethol, Heather Beynon - Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol a Katrin Shaw – Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwaith Achos a Chyfreithiol.

| Ffigur Cyfanswm Sengl o Dâl Cydnabyddiaeth 2025/26 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Cyflog (£'000)** | **Taliadau bonws (£'000)** | **Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | **Cyfanswm (£'000)** |
| Michelle Morris | 160-165 | - | - | 44,000 | 205-210 |
| Simon Hart (hyd at 31 Awst) | 30-35 | - | - | - | 30-35 |
| Heather Beynon (o 26 Awst) | 65-70 | - | - | 23,000 | 85-90 |
| Katrin Shaw | 105-110 | - | - | 17,000 | 120-125 |

Cyflogwyd Heather Beynon fel Cyfarwyddwr Gweithredol – Adnoddau Corfforaethol o 26 Awst 2025. Mae cyfwerth blynyddol ei chyflog yn £108,960 y flwyddyn.

Cyflogwyd Simon Hart fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro - Adnoddau Corfforaethol tan 31 Awst 2025, ar sail 0.5 cyfwerth amser llawn. Mae cyfwerth blynyddol ei gyflog yn £77,400 y flwyddyn.

| Ffigur Cyfanswm Sengl o Dâl Cydnabyddiaeth 2024/25 (ailddatganedig) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Cyflog (£'000)** | **Taliadau bonws (£'000)** | **Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** | **Cyfanswm (£'000)** |
| Michelle Morris | 155-160 | - | - | 50,000* | 205-210 |
| Chris Vinestock (tan 2 Mawrth) | 110-115 | - | - | 50,000 | 160-165 |
| Simon Hart (o 3 Mawrth) | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| Katrin Shaw | 105-110 | - | - | 75,000[1] | 180-185 |

* Mae ffigurau cymharol 2024/25 wedi'u hail-ddatgan yn unol â'r ffigurau diweddaraf a gyflenwyd gan weinyddwr y pensiwn.

Cyflogwyd Chris Vinestock fel Prif Swyddog Gweithredu yn ystod 2024/25.

## Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun trethiant y DU.

## Swyddi oddi ar y gyflogres

Ar 31 Mawrth 2026, roedd y penodiadau canlynol oddi ar y gyflogres:

| **Swyddi gweithwyr sydd oddi ar y gyflogres â chyflog uchel, yn ennill £245 y dydd neu'n fwy.** | **Ar 31 Mawrth 2026** | **Ar 31 Mawrth 2025** |
|---|---|---|
| Nifer y swyddi presennol | 0 | 1 |
| O'r rhai hynny:<br><br>Wedi bodoli am lai nag 1 flwyddyn | 0 | 1 |

| **Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, yn ennill £245 y dydd neu fwy.** | **2025/26** | **2024/25** |
|---|---|---|
| Rhif | 1 | 1 |
| O'r rhai hynny:<br><br>Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i phennu fel nid o fewn cwmpas IR35 | 1 | 1 |

Nid oedd unrhyw swyddi oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd nag uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

## Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau neu wasanaethau yn cynnwys unrhyw wariant sydd wedi'i dalu gan OGCC ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni fu gwariant o'r fath.

## Bonysau

Ni thalwyd bonws yn ystod y flwyddyn i mi nac i unrhyw staff fy swyddfa, gan nad oes cynllun bonws ar waith.

## Lluosrifau cyflog

Ym mlwyddyn ariannol 2025/26, band taliad cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf oedd £160-£165,000 (2024/25 = £155-160,000-£155,000), cynnydd o 3.1%.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion y datgeliadau cyflog teg gofynnol:

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| Taliad cydnabyddiaeth 25ain canradd | £33,144 | £37,938 |
| Cymhareb gyflog 25ain canradd | 4.9 | 4.2 |
| Taliad cydnabyddiaeth 50fed canradd | £51,357 | £49,764 |
| Cymhareb gyflog 50fed canradd | 3.2 | 3.2 |
| Taliad cydnabyddiaeth 75ain canradd | £51,357 | £50,799 |
| Cymhareb gyflog 75ain canradd | 3.2 | 3.1 |

Yn 2025/26, ni chafodd yr un gweithiwr daliad cydnabyddiaeth a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (2024/25 = dim un).

Roedd ystod y taliadau rhwng £28,000 i £165,000 (2024/25 = £27,000-£160,000). Mae'r cyfanswm taliad cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, taliadau dros dro, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

## Dyfarniadau cyflog

Mae cyflogau'r staff yn gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a roddir i weithwyr sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r weithdrefn honno, rhoddwyd dyfarniad cyflog o 3.2% i staff ym mis Awst 2025, wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill 2025.

## Pensiynau

Mae manylion hawliau pensiwn y cyflogeion a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad wedi'u nodi isod:

| Enw | Ar 31/03/25 | | | | Ar 31/03/24 (ailddatganedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn crondedig ar oedran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn | CETV | Gwir gynnydd mewn CETV | CETV |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Michelle Morris | 100 - 105 | 2.5 - 5 | 1,747 | 32 | 1,621* |
| Heather Beynon | 0 - 5 | 0 - 2.5 | 16 | 12 | - |
| Katrin Shaw | 55 - 60 | 0 - 2.5 | 1,123 | 4 | 1,056 |

*** Mae ffigurau cymharol 2024/25 wedi'u hail-ddatgan yn unol â'r ffigurau diweddaraf a gyflenwyd gan weinyddwr y pensiwn.**

Nid yw Simon Hart wedi'i gynnwys yn y cyfrifon hyn gan ei fod wedi 'dewis allan' o'r PCSPS. Mae CETV yn cyfeirio at y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y Datgeliadau Pensiynau.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Caiff y rhwymedigaethau pensiwn i weithwyr blaenorol a phresennol eu cyflawni drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a thelir y rhwymedigaethau pensiwn i gyn-Gomisiynwyr neu'r rhai sy'n ddibynnol arnynt yn uniongyrchol gan OGCC.

## Salwch

Yn ystod y flwyddyn, collwyd 1.9 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch o'i gymharu â 5.8 diwrnod yn 2024/25. Mae hyn gyfwerth ag 0.77% (2.3% yn 2024/25) o gyfanswm y diwrnodau gwaith posibl. Mae hyn yn adlewyrchu absenoldebau tymor byr nodweddiadol a nifer fach o staff sy'n mynd i salwch hirdymor.

## Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill

Ni thalwyd dim pecynnau ymadael yn 2025/26 (2024/25 = Dim).

## Y Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Gwnaed y taliadau amhensiynadwy canlynol, ar sail gyfradd ddyddiol, i aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---:|---:|
| Mike Usher | 3,600 | 4,600 |
| Nia Roberts | 2,700 | 1,900 |
| Dave Tosh OBE | 2,000 | 2,300 |
| Jane Martin CBE | 1,900 | 4,200 |
| Carys Evans | 1,700 | 1,600 |
| Felicity Mitchell | 1,700 | 1,000 |
| Laura Davies | 1,700 | 800 |
| Jayne Woods | 1,700 | 800 |
| Sue Phelps | 1,400 | 1,800 |
| John McSherry | 1,200 | 2,000 |
| Bernie Davies | 1,200 | 1,500 |
| Ian Williams | - | 2,200 |
| Joanest Varney-Jackson | - | 800 |

Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys taliadau a wnaed i aelodau am fynychu cyfarfodydd, gweithdai a sesiynau hyfforddi yn ystod 2025/26. Cynorthwyodd rhai aelodau hefyd gyda recriwtio staff yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfer materion adrodd staff, gweler yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

## Michelle Morris

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 21 Gorffennaf 2026

# Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Senedd Cymru

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd yn unol â'r **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi datganiad a nodiadau cefnogi i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr Amcangyfrifon o'r Cyflenwad a gyflwynir i'r Senedd, yng nghyswllt pob cais am adnodd.

## Crynodeb o Alldro Adnoddau Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

| | Diwygiedig Amcangyfrif | | | Alldro | | | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros Gwariant | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Net Cyfanswm | Cyfanswm Net o'i gymharu â'r amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Refeniw | 6,468 | (13) | 6,455 | 6,341 | (11) | 6,330 | 125 | 6,089 |
| Cyfalaf | 5 | - | 5 | - | - | - | 5 | - |
| **Adnodd DEL** | **6,473** | **(13)** | **6,460** | **6,341** | **(11)** | **6,330** | **130** | **6,089** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **6,473** | **(13)** | **6,460** | **6,341** | **(11)** | **6,330** | **130** | **6,089** |
| **Arian Parod Net Gofyniad** | **6,439** | **(13)** | **6,426** | **6,417** | **(11)** | **6,406** | **20** | **6,211** |

Telir cyflog yr Ombwdsmon yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru a dim ond y treuliau busnes gwirioneddol sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifon yr Ombwdsmon a gaiff eu had-dalu.

# Gofynion Cysoni Adnoddau Net â’r Gofynion Arian Parod Net

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 2025/26 | | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif Diwygiedig | Cyfanswm yr Alldro Net | Cyfanswm alldro net o’i gymharu â'r amcangyfrif diwygiedig | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Refeniw Net | 2-4 | 6,455 | 6,330 | 125 | 6,089 |
| Cyfalaf Net | 6 | 5 | - | 5 | - |
| **Cyfanswm Adnoddau** | | **6,460** | **6,330** | **130** | **6,089** |
| Dibrisiant | 6 | (157) | (133) | (24) | (151) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith | 6-9 | 103 | 125 | (22) | 124 |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 10 | 20 | 84 | (64) | 149 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **6,426** | **6,406** | **20** | **6,211** |

## Michelle Morris

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru — 21 Gorffennaf 2026

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan baragraff 18 (2) o Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.  Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2026 ac o'i gost weithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Thrysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro'n briodol

yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; ac

- mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar drefniadau i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

Yn fy marn i, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau trwy gydol y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 "Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig". Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd

perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt.  Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.   Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain.  Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed dan adran 17(1) Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed dan adran 17(1) Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod y gwaith archwilio, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Drysorlys EF ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol

sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol; ac
- am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol ag adran 18(1) Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n ymwneud ag: adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- Canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
- Y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: adnabod refeniw, adnabod gwariant, a chofnodi dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio

ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a hefyd

- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd Ymgynghorol; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi:

- sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro'n briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn.
- sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
- sicrwydd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

**Catherine Mealing-Jones**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

23 Gorffennaf 2026

**1 Capital Quarter**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd, CF10 4BZ**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan

# Cyfrifon Blynyddol 2025/26

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| Costau gweinyddu | Nodyn | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Costau staff | 2 | 5,023 | 4,794 |
| Costau gweinyddu eraill nad ydynt yn gostau staff | 3 | 1,318 | 1,365 |
| **Costau Gweinyddu Gros** | | **6,341** | **6,159** |
| Incwm Gweithredu | 4 | (11) | (70) |
| **Costau Gweinyddu Net** | | **6,330** | **6,089** |
| **Alldro Refeniw Net** | | **6,330** | **6,089** |

Mae nodiadau 1 i 18 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Mae'r holl weithgareddau sydd wedi cychwyn yn y cyfnod yn parhau.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2026 | Ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 6a | 22 | 43 |
| Asedau anniriaethol | 6b | 15 | 38 |
| Hawl i ddefnyddio ased | 6c | 835 | 924 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 7 | - | - |
| | | **872** | **1,005** |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 7 | 369 | 304 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 8 | 20 | 25 |
| | | **389** | **329** |
| **Cyfanswm asedau** | | **1,261** | **1,334** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (1,064) | (1,129) |
| Darpariaethau llai na blwyddyn | 10 | (27) | (54) |
| | | **(1,091)** | **(1,183)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **170** | **151** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 9 | - | - |
| Darpariaethau mwy na blwyddyn | 10 | (238) | (295) |
| | | **(238)** | **(295)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | **(68)** | **(144)** |
| | | | |
| **Cronfa Gyffredinol** | | **(68)** | **(144)** |

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol y Swyddog Cyfrifyddu a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 21 Gorffennaf 2026 gan:

## Michelle Morris

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 21 Gorffennaf 2026

# Datganiad Llif Arian

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 2025/26<br>£000 | 2024/25<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol | 11 | (6,406) | (6,174) |
| Mewnlif arian net drwy weithgareddau buddsoddi | 12 | - | - |
| Cyllid gan Senedd Cymru | 13 | 6,426 | 6,236 |
| Balans arian parod y flwyddyn flaenorol wedi'i ad-dalu | | (25) | (17) |
| Arian y llynedd heb ei dynnu i lawr | | - | (37) |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(5)** | **8** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **25** | **17** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | | **20** | **25** |

Mae nodiadau 1 i 18 yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| Cronfa Gyffredinol | 2025/26<br>£000 | 2024/25<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **(144)** | **(229)** |
| | | |
| Cost gweithredu net | (6,330) | (6,089) |
| Cyllid gan Senedd Cymru | 6,426 | 6,236 |
| Arian y llynedd heb ei dynnu i lawr | - | (37) |
| **Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru:** | | |
| Arian Parod | (20) | (25) |
| Incwm anweithredol | - | - |
| **Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig am y flwyddyn** | **76** | **85** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(68)** | **(144)** |

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Datganiad Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y Llawlyfr) a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2025/26. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu arbennig sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1. Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau sefydlog, os yw'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### 1.2. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i'r hyn a brynir fod ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn a lle mae'r gost yn fwy na £5k. Gall asedau sy'n costio llai na £5k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £5k. Dangosir asedau ar sail eu cost, llai lwfans am ddibrisiant. Adeg eu cydnabod ar y cychwyn mesurir asedau , sefydlog ar sail eu cost, gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w cael i weithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gafwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd ar gyfer caffael eitemau newydd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth mawr rhwng gwerth net hanesyddol ar bapur yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiant.

## 1.3. Dibrisiant

Caiff asedau eu dibrisio yn ôl cyfraddau a fydd yn eu gostwng i sero neu, os yw'n berthnasol, i amcangyfrif o'u gwerth gweddillol ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig yn dilyn taliad dibrisiant flwyddyn lawn gychwynnol ym mlwyddyn eu prynu. Caiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio o'r mis pan ddefnyddir yr asedau hynny gyntaf.

Ac eithrio pan nodir fel arall y tybir bod asedau byw fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Peiriannau | 10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai |
| Dodrefn a ffitiau eraill | 10 mlynedd neu gyfnod brydles ar gyfer ffitiau |
| Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Rhwng 3 a 10 mlynedd |

## 1.4. Asedau anniriaethol

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynir a meddalwedd a ddatblygir yn cael eu cyfalafu os ydynt yn costio £5k neu ragor ac os yw eu hoes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £5k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd, â chyfanswm, dros £5k. Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol er mwyn canfod lleihad yn eu gwerth a chânt eu datgan ar sail cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded neu dros oes economaidd ddefnyddiol yr offer cyfrifiadurol y maent wedi'u gosod arno, pa un bynnag yw'r byrraf. Fel arfer, byddai hyn rhwng 3 a 5 mlynedd. Caiff meddalwedd a ddatblygir ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn y flwyddyn y cânt eu prynu, mae taliadau amorteiddio yn cychwyn pan ddefnyddir yr asedau.

## 1.5. Treth Ar Werth

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

## 1.6. Pensiynau

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac unrhyw fuddiolwr sy'n dal yn fyw. Datgelir y manylion llawn yn y Datgeliadau Pensiynau ar ddiwedd y Datganiadau Ariannol. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

## 1.7. Costau gadael yn fuan

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau ychwanegol buddion sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

## 1.8. Prydlesi

Codir tâl am y gwariant ar eiddo a brydlesir yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo.

## 1.9. Costau Staff

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion tymor byr cyflogeion, megis cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddion anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol, eu cydnabod pan fydd cyflogai wedi darparu gwasanaethau yn gyfnewid am y buddion hynny.

## 1.10. Darpariaethau

Symiau yw'r rhain y mae'r swm neu'r amseru sy'n berthnasol iddynt yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ac maent yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiadau. Pan fydd effaith gwerth arian o ran amser yn sylweddol, caiff y llifoedd arian amcangyfrifedig yr addaswyd yn ôl risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a argymhellir gan Drysorlys EM.

## 1.11. Incwm

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol ag IAS 18 ac IFRS 15.

## 1.12. Safonau heb fod ar waith eto

| Safon | Dod i rym | Manylion pellach |
|---|---|---|
| IFRS 18<br><br>Cyflwyno a datgelu mewn datganiadau ariannol | Ddim yn berthnasol | Bydd IFRS 18 yn disodli IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol ac yn dod i rym ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 18 ar y sector cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch dyddiad gweithredu. |
| IFRS 19<br><br>Is-gwmnïau heb atebolrwydd cyhoeddus: Datgeliadau | Ddim yn berthnasol | Mae IFRS 19 yn galluogi is-gwmnïau cymwys i gymhwyso Safonau Cyfrifyddu IFRS gyda gofynion datgelu llai llym, ac mae'n dod i rym ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 19 ar y sector cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch dyddiad gweithredu. |

## 2. Niferoedd a Chostau Staff

Roedd y costau cyflogaeth gyda'i gilydd fel a ganlyn:

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Staff parhaol: | | |
| Cyflogau | 3,437 | 3,352 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 458 | 349 |
| Costau pensiwn | 969 | 936 |
| Ffioedd y gronfa bensiwn | (32) | 49 |
| **Cyfanswm** | **4,832** | **4,686** |
| Staff dros dro: | | |
| Cyflogau | 151 | 92 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 19 | 6 |
| Costau pensiwn | 21 | 10 |
| **Cyfanswm** | **191** | **108** |
| **Cyfanswm Costau Staff** | **5,023** | **4,794** |

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth â llawn-amser a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr a chyflogaeth cyfnod penodol) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 |
| Cyfathrebu a Chynorthwyo Personol | 3 | 3 |
| Cwynion ac Ymchwiliadau | 54 | 51 |
| Tîm Gwella | 8 | 7 |
| Cefnogaeth | 8 | 8 |
| **Cyfanswm** | **75** | **71** |

## 3. Costau gweinyddu eraill nad ydynt yn gostau staff

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhent | 25 | 35 |
| Ffi Archwilio Allanol | 23 | 22 |
| Ffioedd proffesiynol a chyfreithiol | 236 | 259 |
| Costau eiddo eraill | 106 | 140 |
| Tâl llog IFRS 16 | 44 | 48 |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 438 | 405 |
| Costau swyddfa | 118 | 89 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 26 | 19 |
| Hyfforddi a Recriwtio | 70 | 120 |
| Cyfathrebu | 99 | 77 |
| **Is-gyfanswm** | **1,185** | **1,214** |
| Dibrisiant | 110 | 123 |
| Tâl Amorteiddio | 23 | 28 |
| Colled wrth waredu | - | - |
| **Is-gyfanswm** | **133** | **151** |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddu Eraill** | **1,318** | **1,365** |

## 4. Incwm Gweithredu

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Staff ar secondiad | (8) | (69) |
| Eraill – Gwasanaethau cyflogres i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | (3) | (1) |
| **Cyfanswm** | **(11)** | **(70)** |

# 5. Costau Gweithredu yn ôl Nodau Strategol

Mae costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru wedi'u nodi isod. Mae gennym bedwar nod strategol ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth ac mae dyraniad pob un o'r nodau yn seiliedig ar y canlynol:

(a) amcangyfrif o amser y staff a dreuliwyd ar y nod

(b) dyraniad uniongyrchol y gwariant lle y bo hynny'n berthnasol

(c) dosraniad costau eraill pro rata i amcangyfrif amser y staff.

| | 2025/26 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % |
| **Nod Strategol 1:**<br>Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus | 4,650 | 73.4 | 4,440 | 72.9 |
| **Nod Strategol 2:**<br>Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant | 266 | 4.2 | 263 | 4.3 |
| **Nod Strategol 3:**<br>Ehangu ein gwaith gwella rhagweithiol | 1,194 | 18.9 | 1,163 | 19.1 |
| **Nod Strategol 4:**<br>Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol | 220 | 3.5 | 223 | 3.7 |
| **Alldro Adnoddau Net** | **6,330** | **100.0** | **6,089** | **100.0** |

Nid yw dadansoddiad o'r Nodau yn cynnwys gwariant cyfalaf.

# 6a. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| 2025/26 | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **156** | **147** | **353** | **656** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Dad-gydnabod | (33) | - | (61) | (94) |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **123** | **147** | **292** | **562** |
| **Dibrisiant ar 1 Ebrill** | **(156)** | **(130)** | **(327)** | **(613)** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | - | (13) | (8) | (21) |
| Dad-gydnabod | 33 | - | 61 | 94 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(123)** | **(143)** | **(274)** | **(540)** |
| **Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2026** | **-** | **4** | **18** | **22** |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2025 | - | 17 | 26 | 43 |

| 2024/25 | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **156** | **147** | **353** | **656** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **156** | **147** | **353** | **656** |
| **Dibrisiant ar 1 Ebrill** | **(156)** | **(115)** | **(308)** | **(579)** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | - | (15) | (19) | (34) |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(156)** | **(130)** | **(327)** | **(613)** |
| **Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2025** | **-** | **17** | **26** | **43** |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2024 | - | 32 | 45 | 77 |

# 6b. Asedau Anniriaethol

| 2025/26 | Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **518** | **52** | **570** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **518** | **52** | **570** |
| **Amorteiddiad ar 1 Ebrill** | **(480)** | **(52)** | **(532)** |
| Amorteiddiad a godwyd yn ystod y flwyddyn | (23) | - | (23) |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(503)** | **(52)** | **(555)** |
| **Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2026** | **15** | **-** | **15** |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2025 | 38 | - | 38 |

| 2024/25 | Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **518** | **52** | **570** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **518** | **52** | **570** |
| **Amorteiddiad ar 1 Ebrill** | **(452)** | **(52)** | **(504)** |
| Amorteiddiad a godwyd yn ystod y flwyddyn | (28) | - | (28) |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(480)** | **(52)** | **(532)** |
| **Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2025** | **38** | **-** | **38** |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2024 | 66 | - | 66 |

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

# 6c. Hawl i ddefnyddio ased

| 2025/26 | Hawl i ddefnyddio ased IFRS 16 | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **1,013** | **1,013** |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **1,013** | **1,013** |
| **Dibrisiant ar 1 Ebrill** | **(89)** | **(89)** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | (89) | (89) |
| Gwarediadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(178)** | **(178)** |
| **Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2026** | **835** | **835** |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2025 | 924 | 924 |

| 2024/25 | Hawl i ddefnyddio ased IFRS 16 | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **571** | **571** |
| Ychwanegiadau | 1,013 | 1,013 |
| Gwarediadau | (571) | (571) |
| **Ar 31 Mawrth** | **1,013** | **1,013** |
| **Dibrisiant ar 1 Ebrill** | **(340)** | **(340)** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | (89) | (89) |
| Gwarediadau | 340 | 340 |
| **Ar 31 Mawrth** | **(89)** | **(89)** |
| **Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2025** | **924** | **924** |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2024 | 231 | 231 |

## 7. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2026 | Ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Rhagdaliadau | 369 | 304 |
| Dyledwyr masnach | - | - |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhagdaliadau | - | - |
| **Cyfanswm** | **369** | **304** |

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falansau banc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae ffigur o £20k (£25k yn 2024/25) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn yr holl gyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd.

Bydd y balans diwedd blwyddyn yn cael ei ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2026/27 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 9. Symiau Masnach taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol eraill

| | Ar 31 Mawrth 2026 | Ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Gwyliau blynyddol heb eu cymryd | 120 | 130 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – balansau heb eu gwario | 20 | 25 |
| Symiau masnach taladwy | 16 | 5 |
| Credydwr IFRS 16 | 861 | 930 |
| Croniadau | 47 | 39 |
| **Cyfanswm** | **1,064** | **1,129** |

# 10. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2025/26 | | | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiynau ar gyfer Cyn-gomisiynwyr | Costau Dirywiad | Costau eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 170 | 179 | - | 349 | 498 |
| Symudiadau mewn darpariaethau yn ofynnol | (31) | (14) | - | (45) | 49 |
| Symudiad yn y gyfradd ddisgownt | (1) | - | - | (1) | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (38) | - | - | (38) | (198) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **100** | **165** | **-** | **265** | **349** |

Dadansoddiad o bryd y disgwylir i'r darpariaethau gael eu talu:

| | Ar 31 Mawrth 2026 | Ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 27 | 54 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 73 | 116 |
| Taladwy ar ôl 5 mlynedd | 165 | 179 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **265** | **349** |

Mae darpariaethau pensiwn yn cael eu cyfrifo ar sail Tablau Bywyd Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r cynnydd mewn pensiynau yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn yn unol â'r wybodaeth am ddadchwyddydd CMC a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r ffactor disgownt wedi'i newid i 2.95% ar gyfer y flwyddyn ariannol (2.40% yn 2024/25) yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae un priod goroesol i gyn-Gomisiynwyr yn parhau fel rhwymedigaeth pensiwn.

## 11. Cysoni'r Costau Gweithredol â'r Llifoedd Arian Gweithredol

| | Nodiadau | 2025/26 £000 | 2024/25 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost gweithredu net** | | **(6,330)** | **(6,089)** |
| Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol | 3/6c | 133 | (631) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 7 | (65) | 21 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (65) | 682 |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 10 | (84) | (149) |
| Symudiad mewn arian a ad-dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru | 8 | 5 | (8) |
| **Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol** | | **(6,406)** | **(6,174)** |

## 12. Buddsoddiad Ariannol a Gwariant Asedau Anghyfredol

| | 2025/26 £000 | 2024/25 £000 |
|---|---|---|
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - |
| Yr elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - |
| Prynu asedau anniriaethol | - | - |
| **Mewnlif arian net drwy weithgareddau buddsoddi** | **-** | **-** |

## 13. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â'r Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn Arian Parod

| | 2025/26<br>£000 | 2024/25<br>£000 |
|---|---|---|
| Gofyniad Arian Parod Net: | | |
| Gweithgareddau gweithredol | (6,406) | (6,174) |
| Gwariant Cyfalaf | - | - |
| | **(6,406)** | **(6,174)** |
| Cyllid gan Senedd Cymru | 6,426 | 6,236 |
| Balans arian parod y flwyddyn flaenorol wedi'i ad-dalu | (25) | (17) |
| Arian y llynedd heb ei dynnu i lawr | - | (37) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **(5)** | **8** |

## 14. Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredol

| | Ar 31 Mawrth 2026<br>£000 | Ar 31 Mawrth 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm isafswm taliadau prydles yn y dyfodol ar gyfer adeilad: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 139 | 136 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 556 | 556 |
| Mwy na phum mlynedd | 606 | 745 |
| | **1,301** | **1,437** |
| Arall: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | - | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | - | - |
| Mwy na phum mlynedd | - | - |
| | **-** | **-** |
| **Cyfanswm pob prydles weithredol** | **1,301** | **1,437** |

## 15. Rhwymedigaethau amodol

Dim.

## 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2026 (2024/25 = Dim).

## 17. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Pennaeth Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sefydlwyd y swyddfa o dan Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae bellach yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r Swyddfa wedi'u trefnu i sicrhau y diogelir annibyniaeth y Swyddfa.

Mae'r OGCC wedi cynnal nifer o drafodion sylweddol gyda Senedd Cymru – a ddarparodd gyllid o £6,426k yn ystod y flwyddyn (2024/25: £6,236k); Cyllid a Thollau EF – ar gyfer taliadau Treth, Yswiriant Gwladol a Benthyciadau Myfyrwyr yn cyfateb i gyfanswm o £1,241k (2024/25: £1,124 k); a Swyddfa'r Cabinet – ar gyfer taliadau yn ymwneud â'r Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cyfateb i gyfanswm o £988k (2024/25: £946k).

Yn ystod y flwyddyn, nid oes dim cyfarwyddwyr, aelodau allweddol o staff na'u perthnasau agos wedi ymwneud ag unrhyw drafodion o bwys. Cyflogwyd Mike Usher (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac aelod o'r Panel Ymgynghorol) fel aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Llywodraeth Cymru drwy gydol 2025/26.

## 18. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Dim.

# Datgeliadau Pensiynau

Cafodd un cynllun pensiwn ei weithredu ar ran y staff presennol yn 2025/26 – Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Hefyd, mae rhwymedigaeth barhaus i fodloni pensiynau di-gyllid un perthynas sy'n ddibynnol ar gyn-Gomisiynwyr Llywodraeth Leol.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfartalog gydag oed pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi â chynllun **alffa** ynghyd â'r rhan fwyaf o'r rheini eisoes yn y gwasanaeth. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o gynllun Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i gynllun **alffa** ryw dro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion PCSPS pob aelod

sy’n newid i gynllun **alffa** yn cael eu ‘bancio’, gyda’r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa – fel sy’n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun alffa, mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy’n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai’r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau’r gweithwyr yn gysylltiedig â chyflogau ac maent yn amrywio o 4.6% i 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa**. Mae’r buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai’n ymddeol. Gyda’r **cynllun premiwm**, mae’r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i’r cynllun **clasurol**, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae **clasurol a mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo’n fras fel y cynllun clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **premiwm**. Gyda **nuvos**, mae’r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo’n aelod o’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun **alffa** yn cronni yn yr un modd ag y maent yng nghynllun nuvos, ac eithrio mai 2.32% yw’r gyfradd cronni. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o’u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae’r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy’n rhan o’r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod). Nid oes raid i’r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn

ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 oed neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun **alffa,** mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond mae'n bosib y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw yn daladwy ar wahanol oedrannau.)

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk).

## Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i asesu gan actwari, ar gyfnod penodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn

y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Ni wnaeth unrhyw aelod o staff adael ar delerau Gadael yn Wirfoddol neu Diswyddo Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Pensiynau cyn-Ombwdsmyn

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991 a chadarnhad wedyn gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, roedd pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd un priod goroesol i gyn-Gomisiynwyr yn parhau i dderbyn pensiwn. Yn drist, bu farw un o'r priod yn ystod 2025/26.

Mae pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chynlluniau pensiwn eraill yn y Sector Cyhoeddus. Mae sail y cyfrifiadau ar gyfer y Cynnydd Blynyddol mewn Pensiynau wedi cael ei newid o ddefnyddio'r symudiad blynyddol seiliedig ar y Mynegai Prisiau Manwerth i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae maint y cynnydd fel arfer wedi'i nodi yn Offeryn Statudol Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu). 3.8% oedd y cynnydd hwn ar gyfer 2025/26.

Cyfanswm y taliadau yn ystod 2025/26 oedd £38k (£53k yn 2024/25). Mae'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £100k (£170k yn 2024/25). Cyfrifwyd y rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol gan ddefnyddio tablau disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru a gafwyd oddi ar wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae cyfradd ddisgownt, o PES (2025), o 2.95% (2.40% yn 2024/25) wedi'i defnyddio yn unol ag arweiniad gan y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar gyfer yr holl rwymedigaethau pensiwn.

# Atodiadau

# Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol

Yn 2024-25, lansiodd Pwyllgor Cyllid y Senedd adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, pum mlynedd ar ôl rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf 2019.

Roedd ein cyflwyniad ysgrifenedig i'r adolygiad yn tynnu ar dystiolaeth gyfoethog i ddangos effaith ein pwerau rhagweithiol i dderbyn cwynion ar wahân i rai ysgrifenedig; i gynnal ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain ac i osod a monitro safonau cwynion.

Gwnaethom yn glir ein bod, er gwaethaf rhai heriau, yn falch o sut rydym wedi defnyddio'r pwerau yma hyd yn hyn. Roeddem yn falch o weld bod ein gwaith wedi cael ei gymeradwyo'n gyffredinol gan ddarparwyr y sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector a gymerodd ran yn yr ymchwil a lywiodd ein cyflwyniad. Fodd bynnag, roeddem yn arbennig o falch o weld rhywfaint o dystiolaeth o effaith gadarnhaol y pwerau hyn ar ein hachwynwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Manteisiom hefyd ar y cyfle hwn i wahodd y Pwyllgor Cyllid i ystyried rhai newidiadau i'n fframwaith deddfwriaethol, er mwyn ein galluogi i wasanaethu pobl Cymru yn well.

Roedd y rhain yn cynnwys dod â chwynion am ysgolion a phenderfyniadau gan gyrff llywodraethu yng Nghymru o fewn ein hawdurdodaeth.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad [PDF 3.7 MB] ar 10 Hydref 2025.

Gwnaethom ymateb [PDF 348 KB] i adroddiad y Pwyllgorau ar 5 Rhagfyr 2025.

Ar y cyfan, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod:

- Deddf 2019 yn darparu sail statudol effeithiol sy'n cefnogi ac yn galluogi ein gwaith.

- Deddf 2019 yn darparu templed arfer da ar gyfer rôl ombwdsmon yn rhyngwladol ac yn parhau i fod yn fframwaith deddfwriaethol effeithiol sy'n addas at y diben.

Nododd y Pwyllgor, oherwydd nad yw rhai o ddarpariaethau Deddf 2019 wedi cael eu defnyddio'n llawn eto, nad yw hi wedi bod yn bosibl i benderfynu a yw'r Ddeddf wedi darparu gwerth am arian wrth gyflawni ei hamcanion, ac y byddai'r materion hyn yn parhau i gael eu craffu yn ystod sesiynau cyllideb a goruchwylio blynyddol gyda'n swyddfa.

Gwnaeth y Pwyllgor rai argymhellion hefyd yn ymwneud â:

- gwella hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth
- cymryd camau i sicrhau bod ein proses ymchwilio ar ei liwt ei hun yn fwy syml, tryloyw ac effeithiol
- cryfhau ein data ar ymdrin â chwynion gan sefydliadau yn ein hawdurdodaeth
- cryfhau sut rydym yn cyfleu ein heffaith
- archwilio'r posibilrwydd o ehangu ein cylch gwaith i ysgolion.

Rydym yn ddiolchgar am  waith craffu'r Pwyllgor. Rydym eisoes yn cymryd camau i weithredu argymhellion y Pwyllgor a byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn ein Hadroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

# Rhai termau a ddefnyddiwn yn y adroddiad hwn

**Achos**: unrhyw fater sy'n cael ei godi gyda ni gan aelod o'r cyhoedd

**Llwyth achosion**: yr holl achosion rydyn ni'n eu trin.

**Ymholiad**: achos lle mae aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni gydag ymholiad cyffredinol ond nad yw'n barod i gwyno eto – neu lle rydym yn gwybod ar unwaith na allwn ni ymchwilio i'w mater. Os bydd hynny'n digwydd, ceisiwn gynnig cyngor neu gyfeirio pobl at sefydliad arall a all helpu.

**Cyn-asesiad**: achos Cod Ymddygiad nad yw'n gŵyn a wnaed yn briodol. Mae angen i bobl sy'n cwyno wrthym am y Cod Ymddygiad lofnodi datganiad i ddweud bod manylion y gŵyn yn wir a'u bod yn ymwybodol y bydd eu manylion a'r gŵyn yn cael eu rhannu gyda'r aelod. Os na fyddant yn llofnodi'r datganiad, byddwn yn cau'r achos fel cyn-asesiad.

**Cwyn**: achos lle mae gennym ddigon o wybodaeth i ddechrau ymchwilio i fater i weld beth allwn ei wneud. Unwaith y byddwn yn ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd, gallwn wrthod cwyn, awgrymu sut y gellir ei datrys yn gyflym ('datrysiad cynnar') neu ddechrau ymchwiliad.

**Cwyn a wnaed yn briodol (gwasanaethau cyhoeddus)**: Gallwn ond ystyried cwyn am wasanaethau cyhoeddus os caiff ei chyflwyno i ni yn unol â'n canllawiau statudol. Lawrlwythwch ein canllawiau [PDF, 282 KB].

**Cwyn a wnaed yn briodol (Cod Ymddygiad)**: I ystyried cwyn am y Cod Ymddygiad, mae angen arnom:

- enw a manylion cyswllt yr achwynydd
- enw ac awdurdod yr aelod y cwynir amdano
- manylion yr honiad yn erbyn yr aelod (bydd y gŵyn wedi'i gwneud yn briodol hyd yn oed os na ddarperir tystiolaeth, ond ni fyddwn yn gallu ymchwilio iddi)
- datganiad wedi'i lofnodi gan yr achwynydd ac unrhyw drydydd parti y mae eu tystiolaeth wedi'i chyflwyno (a leolir ar ddiwedd ein ffurflen gwyno Cod Ymddygiad).

**Canlyniad**: ein penderfyniad ar ôl i ni ystyried cwyn.

**Ymyrraeth**: canlyniad cwyn pan rydym wedi penderfynu bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus a bod rhaid cywiro pethau. Gallai hyn fod drwy wneud argymhellion neu gytuno ar ddatrysiad cynnar neu setliad i gŵyn.

**Atgyfeiriad**: math o ganlyniad mewn achosion Cod Ymddygiad lle rydym yn cyfeirio mater at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Yn gyffredinol, rydym yn gwneud hyn ar gyfer achosion sy'n cynnwys  difrifol o'r Cod.

# Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rydym yn gwirio pa mor dda rydym yn perfformio yn erbyn set o fesurau o'r enw Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs). Isod, rydym yn egluro sut roeddem yn bwriadu perfformio a sut wnaethom.

Datblygom ein dangosyddion perfformiad allweddol yn 2023 a bwriadwn eu cadw am oes ein Cynllun Strategol presennol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno ar dargedau ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol yn flynyddol. Rydym yn gwneud hyn drwy ddadansoddi ein perfformiad yn y gorffennol, ac ystyried unrhyw heriau a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau yn y dyfodol.  Yn gyffredinol, byddwn bob amser yn ceisio cynnal neu ragori ar ein targedau o'r flwyddyn flaenorol. Os penderfynwn fod angen i ni ostwng ein targedau, byddwn yn egluro'r penderfyniad hwn isod.

Y goddefiannau ar gyfer ein sgôr RAG yw GWYRDD: >90%, AMBR: 70% - <90%, COCH: 0-<70%.

| Nod Strategol 1: Cyflawni cyfiawnder sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus | Gwirioneddol 2023-24 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 | Gwirioneddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Amser cyfartalog ar gyfer cau achos: Asesiad (wythnosau) | 4 | 4 | ≤6 | 4 |
| Amser cau achos cyfartalog: Ymchwiliad (wythnosau) | 64 | 53 | ≤52 | 54 |
| Cyfran yr adolygiadau o gwynion lle canfyddwn fod ein penderfyniad gwreiddiol yn briodol | 92% | 94% | ≥95% | 95% |
| Cyfran y penderfyniadau a wnaed gan Swyddogion Ymchwilio a Rheolwr y Tîm Cod yn destun gwiriadau ychwanegol. | - | 5% | 5% | 5% |
| Cyfran o wiriadau sampl lle mae penderfyniad Swyddogion Ymchwilio a Rheolwr y Tîm Cod wedi'u cadarnhau fel un priodol. | - | 100% | 100% | 100% |
| Cyfran yr adolygiadau Ansawdd Gwasanaeth a oedd yn foddhaol neu'n well | 67% | 84% | ≥85% | 86% |
| Cyfran o'r argymhellion sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn a gydymffurfiwyd â nhw yn unol â'r targed a osodwyd ar gyfer achosion a gaewyd o fewn 12 mis | 67% | 56% | ≥75% | 69% |
| Cyfran y bobl a oedd yn fodlon â'n gwasanaeth | | | | |
| Yr holl ymatebwyr | 40% | 42% | ≥50% | 36% |
| Ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r canlyniad | 98% | 95% | ≥95% | 87% |
| Ymatebwyr nad oeddent yn fodlon â'r canlyniad | 21% | 17% | - | 14% |

| Nod Strategol 2: Cynyddu hygyrchedd a chynhwysiant | Gwirioneddol 2023-24 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 | Gwirioneddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Lefel ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth | 49% | 48% | ≥50% | 52% |
| Asesiad achwynydd o'n hygyrchedd ('hawdd i gysylltu') | | | | |
| Yr holl ymatebwyr | 83% | 86% | ≥90% | 83% |
| Ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r canlyniad | 95% | 95% | ≥95% | 91% |
| Ymatebwyr nad oeddent yn fodlon â'r canlyniad | 79% | 81% | - | 79% |
| Cynrychiolaeth o grwpiau targed ymhlith ein hachwynwyr (nifer o 6 grŵp targed sydd wedi'u cynrychioli'n dda) | 1 | 1 | ≥2 | 2 |
| Cyfran o'n cwynion sydd o fewn ein hawdurdodaeth ac nad ydynt yn gynamserol | 59% | 60% | ≥65% | 57% |

| Nod Strategol 3: Cynyddu effaith ein gwaith gwella rhagweithiol | Gwirioneddol 2023-24 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 | Gwirioneddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfran y cwynion y mae cyrff cyhoeddus wedi delio â nhw ac sydd yna wedi'u huwchgyfeirio atom ni: Byrddau Iechyd | 5.5% | 6% | ≤5% | 11% |
| Cyfran y cwynion y mae cyrff cyhoeddus wedi delio â nhw ac sydd yna wedi'u huwchgyfeirio atom ni: Awdurdodau Lleol | 7.1% | 7% | ≤7% | 9% |
| Cyfran yr argymhellion o ganlyniad i'n hymchwiliadau estynedig ac ehangach sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn y cydymffurfiwyd â nhw yn unol â'r targed a osodwyd. | 100% | n/a | ≥75% | 93% |
| Cyfran yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad a gyfeiriwyd gennym a gadarnhawyd gan Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru | 85% | 85% | ≥85% | 81% |

| Nod Strategol 4: Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol | Gwirioneddol 2023-24 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 | Gwirioneddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Lefelau absenoldeb salwch (nifer cyfartalog y dyddiau) | 7.7 | 5.78 | ≤6 | 1.96 |
| Cyfran y staff sy'n cytuno bod OGCC yn lle da i weithio | 75% | 91% | ≥80% | 88% |
| Lefel yr amrywiant ar wariant o'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol (llai na) | 0.50% | 0.40% | ≤3% | 0.30% |
| Rheolaeth briodol o'n cyllideb | Cyfrifon diamod a sicrwydd sylweddol | Cyfrifon diamod a sicrwydd sylweddol | Cyfrifon diamod a sicrwydd sylweddol | Cyfrifon diamod a sicrwydd rhesymol |
| Cost gyfartalog fesul achos ar gyfer cyfanswm y swyddfa o ran cau gwaith achos | £432 | £459 | ≤£500 | £440 |
| Cost gyfartalog fesul cwyn ar gyfer cyfanswm y swyddfa o ran cau cwynion | £1,289 | £1,274 | ≤£1,350 | £1,034 |
| Ein hôl troed carbon ($CO_2$e kg wedi'i gynhyrchu) | 62,630 | 58,514 | ≤60,000 | 56,212.49 |

# Ein cwynion

## Gwasanaethau cyhoeddus - cwynion newydd

| Bwrdd iechyd | 2023-24 | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion | 2024-25 | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion | 2025-26 | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 175 | 0.30 | 178 | 0.30 | 263 | 0.44 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 214 | 0.31 | 236 | 0.34 | 283 | 0.41 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 150 | 0.30 | 149 | 0.29 | 230 | 0.44 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 109 | 0.25 | 102 | 0.23 | 173 | 0.39 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 138 | 0.36 | 130 | 0.33 | 172 | 0.44 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 21 | 0.16 | 20 | 0.15 | 31 | 0.23 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 132 | 0.34 | 134 | 0.34 | 199 | 0.50 |
| **Pob bwrdd iechyd** | **939** | **0.30** | **949** | **0.28** | **1351** | **0.42** |

| Awdurdod lleol | 2023-24 | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion | 2024-25 | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion | 2025-26 | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 15 | 0.22 | 14 | 0.21 | 24 | 0.35 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 59 | 0.40 | 58 | 0.40 | 68 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 56 | 0.32 | 78 | 0.44 | 79 | 0.45 |
| Cyngor Caerdydd* | 149 | 0.40 | 219 | 0.60 | 290 | 0.76 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 69 | 0.36 | 86 | 0.45 | 109 | 0.57 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 32 | 0.45 | 47 | 0.64 | 35 | 0.48 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 36 | 0.31 | 29 | 0.25 | 50 | 0.44 |
| Cyngor Gwynedd | 38 | 0.32 | 46 | 0.39 | 47 | 0.39 |
| Cyngor Sir Ddinbych** | 31 | 0.32 | 98 | 1.01 | 107 | 1.09 |
| Cyngor Sir y Fflint | 51 | 0.33 | 61 | 0.39 | 113 | 0.72 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 38 | 0.55 | 22 | 0.32 | 35 | 0.51 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*** | 12 | 0.20 | 17 | 0.29 | 23 | 0.39 |
| Cyngor Sir Fynwy | 29 | 0.31 | 19 | 0.20 | 37 | 0.39 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 35 | 0.25 | 48 | 0.34 | 54 | 0.38 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 52 | 0.32 | 61 | 0.37 | 74 | 0.44 |
| Cyngor Sir Penfro | 40 | 0.32 | 47 | 0.38 | 55 | 0.44 |

continued overleaf

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Powys | 54 | 0.40 | 55 | 0.41 | 90 | 0.67 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**** | 64 | 0.27 | 62 | 0.26 | 98 | 0.40 |
| Cyngor Abertawe | 82 | 0.34 | 113 | 0.46 | 152 | 0.60 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 15 | 0.16 | 20 | 0.21 | 15 | 0.16 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 77 | 0.58 | 61 | 0.45 | 79 | 0.58 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 76 | 0.56 | 76 | 0.56 | 70 | 0.51 |
| **Pob awdurdod lleol** | **1110** | **0.35** | **1337** | **0.41** | **1704** | **0.53** |

* gan gynnwys Rhentu Doeth Cymru

** gan gynnwys Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru

*** gan gynnwys Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

**** gan gynnwys Grŵp Parcio De Cymru

| Cymdeithas dai | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| Adra | 14 | 18 | 29 |
| Cymdeithas Tai Aelwyd Cyf. | 3 | 3 | 0 |
| Grwp Ateb Cyf. | 1 | 4 | 4 |
| Barcud | 8 | 5 | 13 |
| Grŵp Beacon Cymru Cyf. | 0 | 0 | 27 |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 2 | 0 | 2 |
| Tai Cymunedol Bron Afon Cyf. | 23 | 24 | 31 |
| Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf. | 2 | 3 | 12 |
| Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd | 4 | 13 | 14 |
| Caredig | 5 | 10 | 11 |
| Cartrefi Conwy | 10 | 7 | 6 |
| Cymdeithas Tai Siarter* | 8 | 1 | 1 |
| Cymdeithas Tai ClwydAlyn | 13 | 14 | 13 |
| Grŵp Tai yr Arfordir Cyf. | 8 | 9 | 3 |
| Grŵp Codi | 0 | 0 | 14 |
| Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf | 2 | 2 | 6 |
| Grŵp Cynefin | 7 | 10 | 10 |
| Cymdeithas Tai Hafod | 55 | 46 | 18 |
| Hedyn | 0 | 0 | 34 |

parhau drosodd...

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Tai Linc Cymru | 17 | 18 | 27 |
| Tai Melin Cyf. | 6 | 4 | 0 |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf. | 6 | 4 | 6 |
| Tai Cymoedd Merthyr | 7 | 10 | 8 |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 1 | 3 | 10 |
| Tai Dinas Casnewydd | 16 | 25 | 0 |
| Cymdeithas Tai Newydd | 13 | 14 | 19 |
| Tai Gogledd Cymru | 0 | 0 | 2 |
| Pobl | 43 | 35 | 40 |
| Byw Seren* | 0 | 0 | 1 |
| Cymdeithas Tai Rhondda Cyf. | 0 | 2 | 0 |
| Stori Cymru | 2 | 0 | 3 |
| Cymdeithas Tai Taff | 4 | 5 | 7 |
| Tai Cymunedol Tai Calon | 10 | 13 | 7 |
| Tai Tarian | 10 | 12 | 26 |
| Trivallis | 26 | 27 | 33 |
| Tŷ Gwalia* | 2 | 0 | 0 |
| Cymdeithas Tai Cymry Unedig | 12 | 16 | 19 |
| Tai Cymoedd i'r Arfordir | 24 | 38 | 43 |
| Cymdeithas Tai Cymru & Gorllewin | 16 | 16 | 14 |
| **Pob cymdeithas dai** | **380** | **411** | **513** |

* rhan o'r Grŵp Pobl

# Gwasanaethau cyhoeddus - cwynion caeëdig

| Bwrdd iechyd | 2023-24 | | | 2024-25 | | | 2025-26 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 73 | 195 | 37% | 50 | 176 | 28% | 64 | 254 | 25% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 81 | 256 | 32% | 64 | 227 | 28% | 57 | 272 | 21% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 34 | 158 | 22% | 27 | 154 | 18% | 38 | 216 | 18% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 39 | 129 | 30% | 36 | 104 | 35% | 32 | 172 | 19% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 55 | 154 | 36% | 43 | 131 | 33% | 43 | 160 | 27% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 3 | 21 | 14% | 6 | 25 | 24% | 7 | 28 | 25% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 41 | 141 | 29% | 33 | 136 | 24% | 49 | 195 | 25% |
| **Pob bwrdd iechyd** | **326** | **1054** | **31%** | **259** | **953** | **27%** | **290** | **1297** | **22%** |

| Awdurdod lleol | 2023-24 | | | 2024-25 | | | 2025-26 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 16 | 6% | 0 | 12 | 0% | 0 | 24 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 8 | 59 | 14% | 6 | 57 | 11% | 3 | 67 | 4% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 3 | 48 | 6% | 11 | 79 | 14% | 13 | 83 | 16% |
| Cyngor Caerdydd* | 28 | 147 | 19% | 37 | 190 | 19% | 52 | 304 | 17% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 8 | 60 | 13% | 11 | 86 | 13% | 9 | 106 | 8% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 7 | 32 | 22% | 11 | 45 | 24% | 3 | 33 | 9% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 37 | 0% | 5 | 29 | 17% | 1 | 48 | 2% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 39 | 15% | 3 | 44 | 7% | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ddinbych** | 2 | 33 | 6% | 6 | 98 | 6% | 5 | 105 | 5% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8 | 57 | 14% | 7 | 61 | 11% | 11 | 108 | 10% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10 | 41 | 24% | 1 | 20 | 5% | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful*** | 3 | 14 | 21% | 1 | 15 | 7% | 0 | 23 | 0% |
| Cyngor Sir Fynwy | 3 | 32 | 9% | 1 | 16 | 6% | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 34 | 15% | 5 | 45 | 11% | 7 | 60 | 12% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 5 | 51 | 10% | 6 | 62 | 10% | 3 | 71 | 4% |
| Cyngor Sir Penfro | 7 | 38 | 18% | 8 | 47 | 17% | 2 | 55 | 4% |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Powys | 7 | 53 | 13% | 8 | 51 | 16% | 8 | 84 | 10% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**** | 11 | 63 | 17% | 6 | 60 | 10% | 4 | 97 | 4% |
| Cyngor Abertawe | 12 | 77 | 16% | 12 | 109 | 11% | 10 | 151 | 7% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 14 | 14% | 0 | 18 | 0% | 1 | 17 | 6% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 15 | 71 | 21% | 12 | 63 | 19% | 6 | 78 | 8% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7 | 79 | 9% | 7 | 72 | 10% | 4 | 72 | 6% |
| **Pob awdurdod lleol** | **158** | **1095** | **14%** | **164** | **1279** | **13%** | **157** | **1707** | **9%** |

* gan gynnwys Rhentu Doeth Cymru

** gan gynnwys Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru

*** gan gynnwys Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

**** gan gynnwys Grŵp Parcio De Cymru

| Cymdeithas dai | 2023-24 | | | 2024-25 | | | 2025-26 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | Cyfradd ymyrryd |
| Adra | 0 | 13 | | 2 | 18 | 11% | 4 | 29 | 14% |
| Cymdeithas Tai Aelwyd Cyf. | 0 | 3 | | 0 | 3 | | 0 | 0 | 0% |
| Grwp Ateb Cyf. | 0 | 1 | | 1 | 4 | 25% | 1 | 3 | 33% |
| Barcud | 0 | 8 | | 1 | 4 | 25% | 1 | 13 | 8% |
| Grŵp Beacon Cymru Cyf. | | | | | | | 0 | 27 | 0% |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 1 | 2 | 50% | 0 | 0 | | 0 | 2 | 0% |
| Tai Cymunedol Bron Afon Cyf. | 1 | 20 | 5% | 4 | 25 | 16% | 0 | 30 | 0% |
| Cymdeithas Tai Cadwyn Cyf. | 0 | 2 | 0% | 0 | 3 | | 1 | 11 | 9% |
| Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd | 1 | 3 | 33% | 0 | 13 | | 1 | 14 | 7% |
| Caredig | 0 | 4 | | 0 | 10 | | 6 | 12 | 50% |
| Cartrefi Conwy | 1 | 10 | 10% | 0 | 7 | | 0 | 6 | 0% |
| Cymdeithas Tai Siarter* | 2 | 9 | 22% | 0 | 1 | | 0 | 1 | 0% |
| Cymdeithas Tai Clwyd Alyn | 1 | 14 | 7% | 2 | 11 | 18% | 0 | 16 | 0% |
| Grŵp Tai yr Arfordir Cyf. | 0 | 5 | | 2 | 12 | 17% | 0 | 3 | 0% |
| Grŵp Codi | | | | | | | 2 | 7 | 29% |
| Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf | 0 | 2 | | 0 | 2 | | 0 | 5 | 0% |
| Grŵp Cynefin | 0 | 8 | | 3 | 10 | 30% | 0 | 9 | 0% |
| Cymdeithas Tai Hafod | 8 | 57 | 14% | 17 | 45 | 38% | 7 | 21 | 33% |
| Hedyn | | | | | | | 3 | 29 | 10% |
| Cymdeithas Tai Linc Cymru | 3 | 17 | 18% | 3 | 15 | 20% | 1 | 32 | 3% |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai Melin Cyf. | 0 | 4 | | 0 | 4 | | 1 | 2 | 50% |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf. | 0 | 5 | | 0 | 5 | | 2 | 6 | 33% |
| Tai Cymoedd Merthyr | 0 | 7 | 0% | 0 | 7 | | 1 | 11 | 9% |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 0 | 1 | | 0 | 3 | | 0 | 9 | 0% |
| Tai Dinas Casnewydd | 1 | 18 | 6% | 4 | 22 | 18% | 1 | 3 | 33% |
| Cymdeithas Tai Newydd | 1 | 9 | 11% | 2 | 16 | 13% | 2 | 20 | 10% |
| Tai Gogledd Cymru | 0 | 0 | | 0 | 1 | | 1 | 2 | 50% |
| Pobl | 4 | 42 | 10% | 5 | 36 | 14% | 4 | 45 | 9% |
| Byw Seren* | | | | | | | 0 | 1 | 0% |
| Cymdeithas Tai Rhondda Cyf. | 0 | 1 | | 2 | 2 | 100% | 0 | 0 | 0% |
| Stori Cymru (Hafan Cymru yn flaenorol) | 0 | 2 | | 0 | 0 | | 0 | 3 | 0% |
| Cymdeithas Tai Taff | 1 | 4 | 25% | 2 | 6 | 33% | 0 | 5 | 0% |
| Tai Cymunedol Tai Calon | 2 | 10 | 20% | 1 | 12 | 8% | 3 | 8 | 38% |
| Tai Tarian | 2 | 9 | 22% | 0 | 13 | 0 | 2 | 24 | 8% |
| Trivallis | 2 | 26 | 8% | 5 | 22 | 23% | 9 | 39 | 23% |
| Tŷ Gwalia* | 0 | 2 | | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0% |
| Cymdeithas Tai Cymry Unedig | 1 | 13 | 8% | 3 | 14 | 21% | 3 | 22 | 14% |
| Tai Cymoedd i'r Arfordir | 3 | 23 | 13% | 8 | 36 | 22% | 3 | 45 | 7% |
| Cymdeithas Tai Cymru & Gorllewin | 1 | 15 | 7% | 1 | 16 | 6% | 3 | 13 | 23% |
| **Pob cymdeithas dai** | **36** | **369** | **10%** | **68** | **398** | **17%** | **62** | **528** | **12%** |

* rhan o'r Grŵp Pobl

# Cod Ymddygiad - cwynion newydd

| Sefydliad | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned | 176 | 188 | 187 |
| Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Siriol | 151 | 126 | 136 |
| Parciau Cenedlaethol | 1 | 1 | 1 |
| Awdurdodau Tân | 0 | 0 | 0 |
| Comisiynwyr a Phaneli Heddlu a Throseddu | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **328** | **315** | **324** |

| Pynciau | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| Atebolrwydd a bod yn agored | 3% | 6% | 9% |
| Datgelu a chofrestru buddiannau | 13% | 17% | 11% |
| Dyletswydd i gadw at y gyfraith | 8% | 10% | 9% |
| Uniondeb | 6% | 7% | 9% |
| Gwrthrychedd a phriodoldeb | 10% | 3% | 5% |
| Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | 55% | 56% | 49% |
| Anhunanoldeb a stiwardiaeth | 5% | 3% | 8% |

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru • Wales

Ugain Mlynedd
Twenty Years

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203